

Cynnwys

Crynodeb	2
Cyflwyniad	8
Sefydliadau cenedlaethol sy'n cydlynu'r cyfrifiad	12
Data, dulliau dadansoddi a dehongli	14
Canlyniadau: Iechyd Meddwl	18
Canlyniadau: Anableddau dysgu	39
Casgliadau:	48
Goblygiadau ar gyfer y ffyrdd ymlaen	48
Pwysigrwydd gwybodaeth	49
Argymhellion	50
Cyfeiriadau	52
Atodiad A: Dulliau dadansoddi	54
Atodiad B: Tablau iechyd meddwl	56
Atodiad C: Tablau anableddau dysgu	68

Crynodeb

Dyma bumed cyfrifiad cenedlaethol ethnigrwydd cleifion mewnol mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu GIG ac annibynnol yng Nghymru a Lloegr, a wnaethpwyd ar 31 Mawrth 2009 ac a gynhaliwyd ar y cyd gan y Comisiwn Gofal Iechyd, Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl (MHAC), y Bartneriaeth Gwella Gwasanaethau Gofal a Sefydliad Cenedlaethol Iechyd Meddwl yn Lloegr (NIMHE). Er ei fod yn dilyn cyfrifiad tebyg a gynhaliwyd bob blwyddyn ers 2005, eleni mae hefyd yn cynnwys pob claf oedd yn destun Gorchymyn Triniaeth Cymunedol (CTO), gafodd ei gyflwyno yn 2008 yn dilyn newidiadau i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Yn dilyn newidiadau i reoleiddiad gofal iechyd a gofal cymdeithasol oedolion a gyflwynwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, cafodd y Comisiwn Gofal Iechyd, MHAC a'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol eu disodi gan yr asiantaeth reoleiddio newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol oedolion, y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC). Daeth CQC i rym o'r 1 Ebrill 2009 ac mae'n cymryd drosodd y cyfrifoldeb dros y cyfrifiad.

Mae gan bob claf yr hawl i dderbyn yr un lefel uchel o ofal iechyd heb ystyried ffactorau megis hil, crefydd, oedran, rhyw, tueddfryd rhywiol, a pha un a oes ganddo/ganddi anabledd neu beidio. Mae patrymau salwch meddwl a'r defnydd o wasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu'n amrywio rhwng grwpiau ethnig. Caiff y cyfrifiad ei gynnal i gefnogi cynllun gweithredu pum mlynedd yr Adran Iechyd ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd meddwl i gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig yn Lloegr, a gyflwynwyd yn 2005, *Delivering Race Equality in Mental Health Care* (DRE). Mae hefyd yn cefnogi dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Codi Safonau: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion yng Nghymru*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2006. Mae'r cyfrifiad yn anelu at gefnogi'r cynlluniau gweithredu hyn drwy:

1. Cael ffigurau cywir ar gleifion mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu yng Nghymru a Lloegr .
2. Annog darparwyr gwasanaethau iechyd i weithredu gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a monitro data ar y grŵp cleifion ethnig mewn modd cynhwysfawr.
3. Darparu gwybodaeth i helpu gwasanaethau iechyd i gwrdd ag amcanion y cynlluniau gweithredu.

Canfyddiadau allweddol

Iechyd Meddwl

Cafwyd gwybodaeth am 31,786 o gleifion oedd naill ai'n gleifion mewnol ar wardiau iechyd meddwl 264 o sefydliadau gofal iechyd GIG ac annibynnol yng Nghymru a Lloegr neu ar CTO aar ddiwrnod y cyfrifiad (roedd 1,371 ar CTO ac o'r rhain roedd 1,253 yn gleifion allanol ar ddiwrnod y cyfrifiad). Mae'r patrymau a ddaeth i'r amlwg

o'r cyfrifiad hwn yn debyg iawn i'r rhai a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Nid yw hyn yn syndod, gan fod 29% o'r cleifion yn 2009 hefyd yn gleifion mewnol yn 2008, ac roedd 20% ohonynt hefyd wedi bod yn yr ysbyty adeg cyfrifiad 2007.

Dyma'r canfyddiadau allweddol*:

- Aeth nifer y cleifion mewnol ym mhob cyfrifiad i lawr bob blwyddyn o 33,785 yn 2005 i 31,020 yn 2008, ac i 30,533 yn 2009 (heb gyfrif y 1,253 o gleifion allanol ar CTO).
- Mae canran y cleifion mewn ysbytai annibynnol wedi cynyddu'n gyson o 10% o'r cyfanswm yn 2005 i 16% yn 2009, gyda gostyngiad cyfatebol yng nghanran y cleifion yng ngwasanaethau'r GIG.
- Roedd gwybodaeth am ethnigrwydd ar gael ar gyfer 98% o'r holl gleifion, gyda:
 - 76% yn Brydeinig Gwyn
 - 10% o grwpiau Du neu Gwyn/ Du Cymysg
 - 4% o grwpiau Gwyn Arall
 - 3% o grwpiau De Asia (Indiaidd, Pacistanaidd a Bangladeshaid)
 - 2% yn Wyddelig Gwyn
 - 3% o grwpiau ethnig eraill (yn cynnwys Tsieineidd).

Yn gyffredinol, roedd 22% o'r holl gleifion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, o'i gymharu ag 20% yng nghyfrifiad 2005. Bu newidiadau demograffig ym mhoblogaeth Cymru a Lloegr yn ystod y cyfnod hwn.

- Roedd 70% o'r holl gleifion o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol yn gleifion mewn 28 o'r 264 sefydliad oedd yn rhan o'r cyfrifiad.
- Adroddodd 6% o'r holl gleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.
- Roedd cyfraddau derbyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ymhlith y grwpiau Gwyn Prydeinig, Indiaidd a Tsieineidd ac ar y cyfartaledd ar gyfer y grwpiau Pacistanaidd a Bangladeshaid. Roeddynt yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith grwpiau ethnig lleiafrifol eraill - yn enwedig yn y grwpiau Du Caribiaidd, Du Affricanaidd, Du Arall, Gwyn/Du Caribiaidd Cymysg a Gwyn/Du Affricanaidd Cymysg - gyda chyfraddau dros dair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd, a bron naw gwaith yn uwch yn y grŵp Du Arall. Mae'r patrymau hyn yn debyg i'r rhai a welwyd mewn cyfrifiadau blaenorol, heb unrhyw dystiolaeth o ostyngiad mewn cyfraddau derbyn ymhlith grwpiau du ac ethnig lleiafrifol, un o 12 amcan DRE.
- Roedd cyfraddau derbyn gan feddygon teulu a thimau iechyd cymunedol yn is na'r cyfartaledd ymhlith rhai grwpiau Du a Gwyn/Du, ac roedd cyfraddau derbyn gan y gyfundrefn cyfiawnder troseddol yn uwch. Roedd patrymau'n llai cyson ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol eraill.
- Cadwyd 46% o'r holl gleifion dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wrth iddynt gael eu derbyn, cynnydd o 40% yn 2005. Roedd cyfraddau cyffredinol cleifion oedd yn destun i'r Ddeddf Iechyd Meddwl (yn cynnwys CTOau) yn uwch na'r cyfartaledd

* Gan bod y cyfrifiad yn cynnwys cleifion mewnol a chleifion sy'n destun y Ddeddf Iechyd Meddwl, mae'r canlyniadau a gyflwynir yn ymwneud â'r cleifion hyn i gyd, yn cynnwys cleifion allanol ar CTOau.

ymlith y grwpiau Du Caribiaidd, Du Affricanaidd, Du Arall a Gwyn/Du Caribiaidd Cymysg, ac yn y grŵp Gwyn Arall. Un arall o nodau'r DRE yw lleihau cyfraddau cadw ymlith grwpiau du ac ethnig lleiafrifol. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau cadw wedi aros yn uwch na'r cyfartaledd ymlith y grwpiau Du Caribiaidd, Du Affricanaidd a Du Arall ym mhob un o'r pedwar cyfrifiad cenedlaethol a gynhaliwyd rhwng 2005 a 2008, a gwelwyd yr un patrwm yng nghyfrifiad 2009 o ran y defnydd cyffredinol o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, yn cynnwys CTOau.

- Un patrwm cyson ar draws y pum cyfrifiad blynyddol oedd cyfradd cadw uwch na'r cyfartaledd o dan adran 37/41 ar gyfer grwpiau Du Caribiaidd a Du Arall.
- Roedd 4% o'r holl gleifion ar adran 17A (Gorchymyn Triniaeth Gymunedol, n1371). Roedd y gyfradd yn uwch na'r cyfartaledd ymlith rhai grwpiau lleiafrifol ethnig, ond mae angen bod yn wylidwrus gyda'r canlyniadau hyn gan nad oedd gwybodaeth am ethnigrwydd wedi ei nodi am 8% o'r cleifion oedd ar adran 17a.
- Un arall o 12 nod DRE yw lleihau neilltuo ymlith grwpiau du ac ethnig lleiafrifol. Er bod cyfraddau neilltuo'n uwch na'r cyfartaledd ymlith y grwpiau Gwyn Arall a Gwyn/Du Caribiaidd Cymysg, nid oedd y cyfraddau uchel oedd yn amlwg yn y grwpiau Du mewn rhai cyfrifiadau blaenorol yn amlwg yn 2009.
- Ym mhob un o'r pum cyfrifiad, roedd cyfradd hunan-niweidio yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y grŵp Gwyn Prydeinig, ac roedd yn is na'r cyfartaledd ymlith y grwpiau Du a De Asiaidd.
- Nid oes patrwm cyson wedi ymddangos dros y pum cyfrifiad am wahaniaethau ethnig parthed ataliad corfforol ac ymosodiad corfforol.
- Megis yn y blynyddoedd blaenorol, roedd 29% o gleifion yn yr ysbyty ers blwyddyn neu ragor, a bron 20% ers dros ddwy flynedd. Hyd canolrif yr arhosiad rhwng y diwrnod derbyn a diwrnod y cyfrifiad oedd dau fis a hanner ar gyfer menywod a phum mis a hanner ar gyfer dynion. Rhwng pawb, roedd canolrif hyd yr arhosiad ymlith y rhai hwyaf ar gyfer cleifion o'r grwpiau Du Caribiaidd a Gwyn/Du Caribiaidd Cymysg, ac yn fyrrach yn y grwpiau Tsieineaidd, De Asiaidd, Du Affricanaidd, Gwyn Prydeinig ac Arall.
- Nid oedd 67% (yr un ganran ag yn 2007 a 2008) o gleifion mewn ward un rhyw (gweler y diffiniad o lety ward cymysg ar dudalen 36). Yn gyffredinol, adroddwyd nad oedd gan 19% o ddynion a 24% o fenywod fynediad i gyfleusterau toiledau a bathio wedi'u dynodi ar gyfer eu defnyddio gan un rhyw, ac adroddwyd nad oedd gan tua hanner yr holl gleifion fynediad i lolfa a gofod dydd wedi'u dynodi ar gyfer eu defnyddio gan un rhyw. Roedd y cyfrannau ar y cyfan yn is ymysg grwpiau lleiafrifol ethnig nag ymysg y grŵp Gwyn Prydeinig.

Anableddau dysgu

Cawsom wybodaeth am 3,695 o gleifion mewn 123 o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i bobl sydd ag anableddau dysgu yng Nghymru a Lloegr. Unwaith eto, roedd y patrymau cyffredinol yn debyg iawn i'r rhai a welwyd yn y cyfrifiadau blaenorol, gan fod 68% o'r cleifion mewnol yn 2009 yn gleifion mewnol yn 2008 hefyd, ac roedd 55% hefyd yn gleifion mewnol yn 2007.

Dyma'r canfyddiadau allweddol:

- Syrthiodd cyfanswm y cleifion o 4,609 yn 2006 i 3,695 yn 2009. Cynyddodd cyfran y cleifion mewn sefydliadau gofal iechyd annibynnol o 20% yn 2006 i 27% yn 2009. Syrthiodd cyfran y cleifion mewn gwasanaethau GIG yn gyfatebol.
- Roedd gwybodaeth am ethnigrwydd ar gael ar gyfer 99% o gleifion, gyda:
 - 87% yn Brydeinig Gwyn
 - 5% o grwpiau Du neu Gwyn/ Du Cymysg
 - 2% o grwpiau Gwyn Arall
 - 2% o grwpiau Gwyn Arall
 - 1% yn Wyddelig Gwyn
 - llai nag 1% o grwpiau ethnig eraill (yn cynnwys Tsieineaidd).

Yn gyfan gwbl, roedd 13% o gleifion o grwpiau du a lleiafrifol ethnig. Roedd niferoedd y cleifion yn isel ar gyfer llawer o grwpiau lleiafrifol ethnig.

- Roedd tua 70% o gleifion o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol yn gleifion mewn 30 o'r 123 sefydliad oedd yn rhan o'r cyfrifiad.
- Adroddodd 8% o gleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Cofnodwyd ieithoedd dieiriau ar gyfer 6% o gleifion.
- Roedd cyfraddau derbyn yn is na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau Gwyn Prydeinig, Indiaidd, Pacistanaidd, Asiaidd Arall, Tsieineaidd ac Arall. Roeddent ddwywaith i deirgwaith yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau Gwyn/Du Caribiaidd Cymysg, Du Caribiaidd, Du Arall a Chymysg arall. Mae'r canlyniadau hyn yn debyg i'r rhai a adroddwyd yn flaenorol.
- Cadwyd 45% o gleifion dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wrth iddynt gael eu derbyn. Ychydig o wahaniaethau ethnig oedd yn amlwg, fel mewn blynyddoedd blaenorol.
- Oherwydd y nifer isel o gleifion mewn grwpiau lleiafrifol ethnig, ychydig o wahaniaethau ethnig gafodd eu gweld mewn cyfraddau neilltuo, ymosod corfforol, ataliaeth gorfforol, hunan-niweidio a damweiniau.
- Megis yn 2008, roedd 68% o gleifion yn yr ysbyty ers blwyddyn neu ragor, a bron 32% ers dros bum mlynedd. Hyd canolrif yr arhosiad rhwng y diwrnod derbyn a diwrnod y cyfrifiad oedd 33 mis ar gyfer menywod a 32 mis ar gyfer dynion.
- Yn gyffredinol, nid oedd 48% o ddynion a 73% o fenywod mewn ward un rhyw (gweler y diffiniad o lety ward cymysg ar dudalen 47).

Casgliadau

Unwaith eto, mae canlyniadau'r pumed cyfrifiad hwn yn dangos gwahaniaethau **rhwng** cleifion iechyd meddwl o'r grŵp Gwyn Prydeinig a grwpiau du ac ethnig lleiafrifol, a gwahaniaethau hefyd **o fewn** y grwpiau hyn. Mae'r cyfrifiad yn dangos

hefyd na fu gostyngiad mewn cyfraddau derbyn, cadw a neilltuo ers 2005 – sef nodau allweddol DRE – ymhlith grwpiau du ac ethnig lleiafrifol. Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau ynddynt eu hunain yn dangos bod gwasanaethau'n methu ateb anghenion defnyddwyr gwasanaethau du ac ethnig lleiafrifol.

Rhaid dehongli'r canlyniadau yng nghyd-destun y dystiolaeth sydd ar gael am amrywiadau ethnig yn y cyfraddau afiechyd meddwl a'r gwahanol lwybrau gofal a ffactorau eraill megis anfantais economaidd gymdeithasol sydd efallai'n cyfrannu at y gwahaniaethau hyn. Mae adroddiadau blaenorol wedi amlygu'n gyson yr angen am atal, ymyrryd yn gynnar a gweithio'n gydweithredol ar draws sectorau i leihau risgiau derbyn a chadw lle bo modd, a hynny heb leihau'r gofal a roddir i gleifion. Mae gan wasanaethau iechyd meddwl rôl allweddol i'w chwarae, ond bydd angen partneriaeth rhwng pob sefydliad statudol a sefydliadau y tu allan i'r sector gofal iechyd, cymunedau du ac ethnig lleiafrifol a'r defnyddwyr gwasanaethau eu hunain i wneud hyn. O fewn iechyd a gofal cymdeithasol, mae gan CQC gyfle unigryw i sicrhau bod gwasanaethau'n cadw ffocws cadarn ar y ffactorau hyn drwy gyfrwng y cofrestru sydd ar ddod o sefydliadau sy'n darparu, asesu cyrff comisiynu, a'i gyfrifoldeb dros gydlynu gweithgaredd rheolaethu o fewn y system.

Mae'r neges am atal afiechyd meddwl trwy fynd i'r afael â ffactorau cyfrannol ac ymyrryd yn gynnar, yn greiddiol i *New Horizons*, gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer dyfodol gofal iechyd meddwl yn Lloegr. Os cânt eu rhoi ar waith yn effeithiol, mae gan bolisiau o'r fath y potensial i leihau baich afiechyd meddwl a'r angen am wasanaethau gofal eilaidd ymhlith grwpiau ethnig du a lleiafrifol ethnig. Mae gan yr argymhellion a amlinellir yn adroddiad yr Arglwydd Bradley i fynd i'r afael ag anghenion pobl â phroblemau iechyd meddwl neu anabledau dysgu yn y system cyfiawnder troseddol hefyd y potensial i wella llwybrau gofal a chanlyniadau ar gyfer grwpiau lleiafrifol ethnig. Mae CQC yn cefnogi'r ddwy fenter yn gadarn.

Yn gyffredinol, mae cryn le i wella darpariaeth un rhyw mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu. Rhaid i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu ymateb i hyn fel blaenoriaeth **uchel**.

Mae'r data a gasglwyd ar gyfer y cyfrifiad yn dangos ciplun o gleifion mewnol a chleifion allanol sy'n destun CTO ar un diwrnod yn unig. Bydd CQC yn archwilio patrymau o ethnigrwydd a iechyd meddwl ymhellach mewn setiau data eraill.

Argymhellion

Ar sail y canfyddiadau hyn, argymhellwn y camau canlynol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, anabledau dysgu a gofal cymdeithasol:

1. Dylai sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda chyrff statudol eraill (yn cynnwys yr heddlu, llysoedd, tai ac addysg), asiantaethau anstatudol neu wirfoddol, a gyda chymunedau ethnig lleiafrifol, tuag at gyflawni nodau'r DRE a gweledigaeth lles meddyliol sydd wedi ei nodi yn *New Horizons*.
2. Dylai cyrff statudol, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill, ddeall anghenion

demograffig a chlinigol lleol y boblogaeth leol, a chomisiynu a darparu gwasanaethau sy'n deg, yn bersonol ac yn effeithiol sy'n lleihau afiechyd meddwl ymhlith grwpiau du ac ethnig lleiafrifol, gwella llwybrau at ofal iechyd i'r rhai sy'n mynd yn sâl yn feddyliol, a gwella profiadau'r rhai sy'n cael eu derbyn i ysbyty.

3. Argymhellwn y dylai comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu wneud ymdrechion pendant o'r newydd i wella wardiau un rhyw penodedig ar gyfer cleifion mewnol.
4. Dylai comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu, yn y GIG a'r sector annibynnol, fod â systemau cynhwysfawr i gofnodi a monitro ethnigrwydd.

Argymhellwn fod yr Adran Iechyd a'r Ganolfan Wybodaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn:

5. Bod gwneud cyflwyno'r Set Ddata Sylfaenol Iechyd Meddwl (MHMDS) a'r Ystadegau Digwyddiadau Ysbytai (HES) yn dod yn orfodol i bob darparydd annibynnol o wasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu, yn enwedig yng ngolwg y nifer a'r gyfran gynyddol o'r holl gleifion mewnol iechyd mewnol ac anableddau dysgu sy'n derbyn gofal yn y sefydliadau hyn. Dylai cyflwyno'r setiau data hyn fod yn ofynnol yn y contract iechyd meddwl sy'n cael ei ddatblygu gan yr Adran Iechyd.
6. Dylai'r Ganolfan Wybodaeth fonitro a chyhoeddi adroddiadau'n rheolaidd ar ansawdd data MHMDS a gyflwynir gan bawb sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys rhai yn y sector annibynnol. Dylai'r asesiadau ansawdd data hyn gynnwys ansawdd data ar orchmynion triniaeth gymunedol.
7. Dylai'r Ganolfan Wybodaeth gyhoeddi data'n rheolaidd am yr holl dderbyniadau, y gorchmynion cadw a gorchmynion triniaeth gymunedol dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn Lloegr (gan ddarparwyr gofal iechyd GIG ac annibynnol) yn ôl ethnigrwydd cleifion, gyda'r nod yn y tymor hir i'r MHMDS fod y ffynhonnell gwybodaeth ddiffiniol am gleifion iechyd meddwl, gan gynnwys defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl..

Mae data priodol o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer monitro sut mae cleifion yn cael mynediad i ofal iechyd, ansawdd y gofal a dderbyniant a chanlyniadau'r gofal hwnnw. Mae hyn yn berthnasol i bob claf sydd â phroblemau iechyd meddwl ac anableddau dysgu, gan gynnwys rhai o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol. Mae gwybodaeth addas i bwrpas yn hollbwysig hefyd o ran rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd meddwl ac anableddau dysgu gan CQC,

Cyflwyniad

Nod y Llywodraeth yw hyrwyddo cydraddoldeb mewn gofal iechyd er mwyn sicrhau bod gofal iechyd o'r un lefel uchel yn cael ei ddarparu i bob claf, heb wahaniaeth am oed, rhyw, hil, crefydd a thueddfryd rhywiol, a heb wahaniaeth a oes ganddynt anabledd ai peidio. Mae'n ceisio gwneud hyn trwy bolisïau a deddfwriaeth y mae'n rhaid i sefydliadau gofal iechyd gydymffurfio â hwy.

Mae Adolygiad Cam Nesaf y GIG yn gosod sylfaen newydd ar gyfer gwasanaeth iechyd sy'n helpu pobl i aros yn iach, yn ymrymuso staff ac sy'n rhoi dewis i gleifion ac yn sicrhau y bydd gofal iechyd yn bersonol, yn deg, yn effeithiol ac yn ddiogel.¹ Ar ben hyn, nod y rhaglen Comisiynu Safon Ryngwladol yw helpu'r GIG i ymateb i anghenion newydd y boblogaeth gan ddarparu gwasanaeth dan arweiniad clinigwyr, sy'n canolbwyntio ar gleifion ac sy'n effro i anghenion lleol. Bwriada wneud hyn trwy ddatblygu dull gweithredu mwy strategol, hirdymor gyda ffocws ar gomisiynu gwasanaethau yn y gymuned, lle y bydd comisiynwyr a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal yn cydweithio i gyrraedd nodau iechyd gwell.²

Iechyd Meddwl

Ar 31 Mawrth 2009, cynhaliodd y Comisiwn Gofal iechyd, y Comisiwn Deddf Iechyd Meddwl (MHAC) a'r Sefydliad Iechyd Meddwl Cenedlaethol yn Lloegr (NIMHE) gyfrifiad cenedlaethol i gofnodi ethnigrwydd, a manylion dethol eraill, ar gleifion mewnol a chleifion allanol ar Orchymyn Triniaeth Gymunedol yn y GIG a gwasanaethau annibynnol iechyd meddwl ac anableddau dysgu yng Nghymru a Lloegr. Hwn yw'r pumed cyfrifiad Cyfrif pawb. Cynhaliwyd cyfrifiadau tebyg yn flynyddol ers 2005.³⁻⁶ Cynhelir y cyfrifiadau i ategu cynllun pum mlynedd yr Adran Iechyd a gyflwynwyd yn 2005 i wella gwasanaethau iechyd meddwl i gymunedau du ac ethnig lleiafrifol, *Delivering Race Equality in Mental Health Care (DRE)*.⁷ Ceir tair rhan yng nghynllun gweithredu DRE:

- Gwasanaethau mwy priodol ac ymatebol
- Mwy o ymwneud â'r gymuned
- Gwybodaeth o well ansawdd, a ddefnyddir mewn ffordd fwy deallus.

Mae cyfrifiad Cyfrif pawb yn helpu sefydliadau gofal iechyd gyda'r drydedd elfen, trwy ddarparu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n berthnasol i bob grŵp yn y gymuned. Mae 'pren mesur' sy'n galluogi sefydliadau gofal iechyd i fesur cynnydd tuag at amcanion y DRE yn monitro chwe blaenoriaeth amlwg:

- Mynediad i wasanaethau ymyrryd cynnar.
- Mynediad i wasanaethau datrys argyfwng/triniaeth yn y cartref.
- Defnydd o wasanaethau estyn allan pendant.

- Mynediad i therapïau seicolegol.
- Effaith gorchmynion triniaeth yn y gymuned.
- Recriwtio a defnyddio gweithwyr datblygu cymunedol (CDWau).

Mae manylion pellach ar gael ar: www.mentalhealthequalities.org.uk

Mae'r cyfrifiad hefyd yn ategu dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Codi'r Safon: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion yng Nghymru*, a gyhoeddwyd yn Hydref 2006.⁸ Nod y cynllun gweithredu hwn yw gwella cydraddoldeb mynediad, triniaeth a chanlyniadau mewn darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl oedolion ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol yng Nghymru.

Mae *New Horizons* (olynydd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) ar iechyd meddwl o 2009) yn amlinellu gweledigaeth arfaethedig yr Adran Iechyd ar gyfer iechyd meddwl hyd 2020.⁹ Mae gan *New Horizons* ffocws traws-lywodraeth a thraws-sector ar ataliad a lles meddwl y boblogaeth, ymyrryd cynnar a gofal personol. Mae'n arwyddo ehangu ffocws y polisi o wasanaethau arbenigol ar wahân i'w gilydd, i agwedd iechyd cyhoeddus tuag at les meddwl, gan wneud iechyd meddwl yn "fusnes i bawb". Mae hefyd yn cydnabod bod lefelau iechyd meddwl a'r ffyrdd y mae gwasanaethau iechyd meddwl yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau ethnig, yn adlewyrchu'r anfantais economaidd-gymdeithasol y mae pobl o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol yn aml yn ei brofi.

Anableddau dysgu

Ym Mhapur Gwyn yr Adran Iechyd yn 2001, *Valuing People*, amlinellwyd gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu ar draws ystod o wasanaethau yn seiliedig ar bedair egwyddor allweddol: hawliau, annibyniaeth, dewis a chynhwysiant.¹⁰ Mae *Valuing People Now: A New Three Year Strategy for people with learning disabilities*, a gyhoeddwyd yn 2009, yn gosod allan strategaeth y Llywodraeth ar gyfer y tair blynedd nesaf.¹¹ Mae hefyd yn rhoi ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion yn *Healthcare for All*, adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i fynediad i ofal iechyd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu,¹² ac i adroddiad y Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol, *A Life Like Any Other?*¹³ Mae'r weledigaeth yn aros yr un ag a nodwyd yn *Valuing People*: fod gan bob person ag anabledd dysgu yr hawl i fyw ei fywyd fel unrhyw un arall, gyda'r un cyfleoedd a chyfrifoldebau, ac i gael ei drin gyda'r un urddas a pharch. Mae *Valuing People Now* hefyd yn gosod allan ymrwymadau a gweithredoedd traws-lywodraeth i gynyddu'r gallu a'r medr i gyflwyno gwasanaethau'n lleol.

Mae adroddiad gan y Comisiwn Hawliau Anabledd yn cynnwys tystiolaeth bod pobl sydd ag anableddau dysgu neu â phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o ddiodeff gan afiechydon mawr ac i farw yn eu sgil yn gynt na phobl eraill. Ond ar yr un pryd, maent yn llai tebygol o dderbyn triniaethau na phobl sydd â'r un cyflwr meddygol, ond heb gyflwr iechyd meddwl neu anabledd dysgu.¹⁴ *Nododd Learning Difficulties and Ethnicity* fod yr anfantais a wynebwr gan bobl o

gymunedau ethnig lleiafrifol oherwydd eu hethnigrwydd (mewn addysg a chyflogaeth, er enghraifft) yn cael ei gwneud yn waeth oherwydd yr anfantais sydd arnynt trwy eu nam.¹⁵

Disgwylir y bydd nifer y cleifion mewnol sydd ag anableddau dysgu'n gostwng yn raddol dros y blynyddoedd nesaf wrth i gleifion gael eu symud o safleoedd GIG i fannau mwy priodol yn y gymuned, gan ehangu eu profiad o fywyd, eu hannibyniaeth a'u dewis o ddydd i ddydd.

Nodau'r cyfrifiad

Mae nodau cyfrifiad 2009 yr un peth ag mewn blynyddoedd blaenorol:

- Ceisio ffigurau cadarn am yr holl gleifion mewnol mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu yng Nghymru a Lloegr. Mae cyfrifiad 2009 hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gleifion allanol ar CTOau.
- Annog darparwyr gofal iechyd i sefydlu systemau i gadw cofnodion o ethnigrwydd cleifion, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer monitro ethnigrwydd.
- Darparu gwybodaeth a fydd yn helpu darparwyr gofal iechyd i gymryd camau ymarferol i wireddu nodau'r DRE.

Bu'r pedwar cyfrifiad blynyddol rhwng 2005 a 2008 yn cyfrif yr holl gleifion mewnol mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu yng Nghymru a Lloegr, yn cynnwys y rhai oedd wedi eu cadw mewn ysbyty dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae Gorchmynion Triniaeth Gymunedol (CTOau), a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2008 o ganlyniad i Ddeddf Iechyd Meddwl 2007, yn caniatáu am drin cleifion yn y gymuned dan oruchwyliaeth. Mae cyfrifiad 2009 felly yn cynnwys rhai cleifion iechyd meddwl sy'n destun triniaeth dan oruchwyliaeth yn y gymuned dan y Ddeddf Iechyd meddwl, ac sydd felly'n gleifion allanol yn y gymuned ac heb fod yn yr ysbyty ar ddiwrnod y cyfrifiad. Gan mai un o amcanion y cyfrifiad yw darparu ffigurau ar gleifion mewnol ac ar y rhai sy'n destun y Ddeddf Iechyd Meddwl ar ddiwrnod y cyfrifiad, nid yw'r dadansoddi yn yr adroddiad hwn ar gyfrifiad 2009 wedi ei gyfyngu i gleifion mewnol iechyd meddwl, ac mae hefyd yn cynnwys cleifion allanol iechyd meddwl ar CTOau. Mae hyn yn rhoi sail mwy gorffenedig ar gyfer archwilio'r defnydd o'r Ddeddf - yn gyffredinol ac mewn perthynas â CTOau - ymhlith gwahanol grwpiau ethnig. Mae hefyd yn golygu fod cleifion CTO wedi eu cynnwys yn y proffiliau disgrifiadol (ee crefydd, iaith) o gleifion sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Ceir dwy adran ar wahân yn yr adroddiad hwn – mae'r rhan gyntaf yn ymwneud â chleifion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl ac mae'r ail ran yn edrych ar rai sy'n defnyddio gwasanaethau anableddau dysgu.

Er i'r cyfrifiad gynnwys rhai plant a phobl ifanc, rydym yn defnyddio'r termau "dynion" a "menywod" trwy gydol yr adroddiad hwn i gyfeirio at bobl o bob oed - gan gynnwys plant, pobl ifanc a phobl hŷn.

Dylid nodi nad yw'r cyfrifiad yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn amgylcheddau preswyl megis wardiau paediatreg a gwasanaethau dan ofal y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae rhagor o wybodaeth am y cyfrifiad a sut y cafodd ei gynnal, yn cynnwys y set gyflawn o ganlyniadau, ar gael ar:

<http://www.cqc.org.uk/guidanceforprofessionals/healthcare/allhealthcarestaff/countmeincensus.cfm>

Sefydliadau cenedlaethol sy'n cydlynu'r cyfrifiad

Y Comisiwn Gofal Iechyd oedd â'r prif gyfrifoldeb dros ddarparu'r cyfrifiad mewn partneriaeth gyda'r Comisiwn Deddf Iechyd Meddwl (MHAC) a'r Sefydliad Iechyd Meddwl Cenedlaethol yn Lloegr (NIMHE). Fodd bynnag, dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, cafodd swyddogaethau rheolaethu'r Comisiwn Gofal Iechyd, y Comisiwn Deddf Iechyd Meddwl a'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol eu disodli gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) ar 1 Ebrill 2009. Ar yr un pryd, cafodd NIMHE hefyd ei ddisodli gan yr Uned Genedlaethol Datblygu Iechyd Meddwl (NMHDU). CQC a NMHDU bellach yw'r ddau bartner allweddol o ran darparu'r cyfrifiad, er mai CQC sydd â'r prif gyfrifoldeb.

Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)

Y Comisiwn Ansawdd Gofal yw rheolydd annibynnol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Rydym hefyd yn gwarchod buddiannau pobl y mae eu hawliau wedi eu cyfyngu dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Rydym yn gwneud yn siŵr fod pobl yn cael gwell gofal, p'un a ydynt wedi eu darparu gan y GIG, yr awdurdodau lleol, cwmnïau preifat neu sefydliadau gwirfoddol. Gwnawn hyn drwy:

- Gyrru gwelliannau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol oedolion.
- Rhoi pobl yn flaenaf a phleidio eu hawliau.
- Gweithredu'n gyflym i wella arfer gwael.
- Casglu a defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd, a gweithio gydag eraill.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'r wefan www.cqc.org.uk

Uned Genedlaethol Datblygu Iechyd Meddwl

Cafodd Uned Genedlaethol Datblygu Iechyd Meddwl (NMHDU) ei lansio ym mis Ebrill 2009 ac mae'n cynnwys tîm canolog bach ac amrywiaeth o raglenni sy'n cael eu cyllido gan yr Adran Iechyd a gan y GIG. Mae'n darparu cefnogaeth genedlaethol ar gyfer gweithredu polisi iechyd meddwl drwy gynghori ar arfer gorau cenedlaethol a rhyngwladol i wella iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae NMHDU yn gwneud hyn drwy gomisiynu neu ddarparu:

- Arbenigedd gan arbenigwyr mewn meysydd blaenoriaeth polisi a chyflwyno
- Trosglwyddo gwybodaeth effeithiol ar ymchwil, tystiolaeth ac arfer da

- Cyfieithu polisiâu cenedlaethol yn bethau y gellir eu cyflawni'n ymarferol ac sy'n arwain at ddeilliannau
- Cydlynu gweithgareddau cenedlaethol i helpu eu gweithredu'n rhanbarthol ac yn lleol.

Mae gwaith NMHDU yn cael ei ddatblygu drwy gyd-gynhyrchu rhwng DH a'r 10 awdurdod iechyd strategol (SHAau), a phartneriaethau strategol gyda grwpiau eraill megis Cydffederasiwn y GIG <<http://www.nmhd.org.uk/nmhd/en/useful-links/useful-links/>>, Cymdeithas Cyfarwyddwyr a Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (ADASS) <<http://www.nmhd.org.uk/nmhd/en/useful-links/useful-links/>> a'r prif sefydliadau iechyd meddwl yn y trydydd sector. (www.nmhd.org.uk/nmhd/ <<http://www.nmhd.org.uk/nmhd/>>).

Data, dulliau dadansoddi a dehongli

Grwpiau ethnig

Y categorïau ethnig a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS) yn ei chyfrifiad yn 2001 o boblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr (gweler Blwch 1). Mae'r term 'grwpiau du ac ethnig lleiafrifol' yn diffinio pob grŵp heblaw 'Gwyn Prydeinig'.

Blwch 1 : Categorïau ethnig a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

Gwyn Prydeinig	Arall Cymysg	Du Affricanaidd
Gwyddelig Gwyn	Indiaidd	Du Arall
Gwyn Arall	Pacistanaid	Tsieineaid
Gwyn a Du Caribiaidd	Bangladeshaid	Arall
Gwyn a Du Affricanaidd	Asiaidd Arall	
Gwyn ac Asiaidd	Du Caribiaidd	

Sylw i sefydliadau anabledau dysgu

Cynhwysodd cyfrifiad 2009 yr holl ddarparwyr annibynnol yn Lloegr oedd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Gofal Iechyd ar 31 Mawrth* a'r holl ddarparwyr annibynnol yng Nghymru sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Iechyd Cymru, o dan adran 2 y Ddeddf Safonau Gofal (2000) i ddarparu gwasanaethau anabledau dysgu i gleifion mewnol. Nid oedd yn cynnwys cartrefi gofal a gofrestrir gyda'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol (CSCI) yn unig.

Yn y GIG, mae continiwm o wasanaethau cleifion mewnol ymlaen at gartrefi cofrestredig ac wedi'u cynnal. Gall pob un o'r rhain fod â rhai cysylltiadau â'r GIG, naill ai'n uniongyrchol neu drwy staff ar secondiad. Lle'r oedd cyfleusterau GIG o'r fath wedi'u cofrestru fel cartrefi gofal dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a hefyd yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiwn Gofal Iechyd, fe'u cynhwyswyd. Nid oedd rhai a reoleiddir gan y Comisiwn Arolygu Gofal Iechyd (CSCI) yn gymwys i'w cynnwys yn y cyfrifiad.

Gwahaniaethu rhwng cleifion iechyd meddwl a chleifion anabledau dysgu.

Mae rhai darparwyr gofal iechyd yn cynnig y ddau wasanaeth ac mae cryn orgyffwrdd rhyngddynt. Gofynnodd y cyfrifiad i ddarparwyr wahaniaethu rhwng y gwasanaethau trwy ddisgrifio wardiau fel rhai "sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn bennaf" neu "sy'n darparu gwasanaethau anabledau dysgu'n

* Ar 1 Ebrill 2009, daeth swyddogaethau rheolaethu'r Comisiwn Gofal Iechyd, y Comisiwn Deddf Iechyd Meddwl a'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol eu disodli gan y Comisiwn Ansawdd Gofal fel y rheolydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol oedolion.

bennaf". Dim ond wardiau sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn bennaf gafodd eu cynnwys yng nghyfrifiad 2005. Mae gwahanu canlyniadau yn ôl y math o ward fel hyn yn rhoi dull o gymharu'r canlyniadau ar draws y blynyddoedd, ac mae'n sicrhau hefyd nad yw cleifion yn cael eu cyfrif ddwywaith.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gall fod gan rai cleifion ar wardiau iechyd meddwl anabledd dysgu neu Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth, yn cynnwys syndrom Asperger, ac y gall fod gan rai cleifion ar wardiau anableddau dysgu broblem iechyd meddwl.

Dulliau dadansoddi ystadegol

Ceir y dulliau ystadegol a ddefnyddiwyd i ddadansoddi data yn yr adroddiad hwn yn Atodiad A.

Yn achos y cyfraddau derbyn, defnyddiasom amcangyfrifon ONS o'r boblogaeth gyffredinol fel enwaduron. Ym mhob achos arall (er enghraifft, cyfraddau defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl, neilltuo ayb), defnyddiwyd niferoedd y cleifion yn y cyfrifiad fel enwaduron, yn cynnwys cleifion allanol ar CTOau. Roedd y rhan fwyaf o gleifion ar CTOau yn gleifion iechyd meddwl; ychydig iawn o gleifion ag anableddau dysgu oedd ar CTO.

Yn wahanol i'r cyfrifiadau blaenorol oedd ond yn cyfrif cleifion mewnol, roedd cyfrifiad 2009 hefyd yn cynnwys cleifion allanol ar CTOau ar ddiwrnod y cyfrifiad. Mae'r cleifion hyn wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddi a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, er gwaetha'r ffaith nad ydynt yn gleifion mewnol, gan fod y cyfrifiad yn anelu at gynnwys pob claf sy'n destun y Ddeddf Iechyd Meddwl ar ddiwrnod y cyfrifiad. Ar ben hyn, ni fyddai dadansoddi cymarebau safonedig ar gyfer CTOau am wahanol grwpiau ethnig wedi bod yn bosibl pe byddai cleifion CTO wedi cael eu heithrio o'r dadansoddi. Yn ogystal, ni fyddai dadansoddi'r cymarebau safonedig ar wahanol adrannau'r Ddeddf Iechyd Meddwl, er enghraifft, wedi bod yn gadarn pe byddai cleifion CTO wedi cael eu heithrio o niferoedd yr holl gleifion oedd yn destun y Ddeddf Iechyd Meddwl ar ddiwrnod y cyfrifiad. Dim ond yr adrannau sy'n ymwneud â chleifion iechyd meddwl sy'n cael eu heffeithio gan hyn, gan mai ychydig iawn o gleifion anableddau dysgu oedd ar CTOau.

Safonwyd rhai canlyniadau yn yr adroddiad hwn o ran oed a rhyw (y rhai sy'n ymwneud â derbyn, cadw, ffynhonnell cyfeirio, dull rhaglen gofal, neilltuo, atal, damweiniau, ymosod, hunan niweidio, cydsyniad a phresenoldeb ar ward diogel). Gwnaed hyn am fod gwahaniaethau gwaelodol ym mhroffiliau oed a rhyw gwahanol boblogaethau ethnig, a byddai cymariaethau'n seiliedig ar gyfraddau amrwd yn gamarweiniol. Mae safoni'n caniatáu cymharu'r canlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig mewn ffordd ddibynadwy, trwy gymryd i ystyriaeth amrywiadau oed a rhyw. Mae'r adroddiad yn defnyddio'r dulliau ystadegol a dderbynnir yn gonfensiynol pan gymerir i ystyriaeth wahaniaeth oed a rhyw rhwng grwpiau ethnig wrth gyfrifo'r cyfraddau hyn.

Mae'r termau 'uwch' ac 'is' na'r cyfartaledd, a ddefnyddir yn y testun wrth gymharu grwpiau ethnig, yn ymwneud â gwahaniaethau o'r cyfartaledd cenedlaethol sy'n arwyddocaol o safbwynt ystadegol ar y lefel 5%.

Dehongli'r canlyniadau

Yn yr adroddiad hwn, er hwylustod, rydym yn cyfeirio at "gyfraddau derbyn" cleifion iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Fodd bynnag, cyfraddau yw'r rhain mewn gwirionedd ar sail poblogaethau oedd eisoes yn yr ysbyty neu'n destun y Ddeddf Iechyd Meddwl ar ddiwrnod y cyfrifiad, ac nid ar gyfer derbyniadau a wnaed ar ddiwrnod y cyfrifiad ei hun. Bydd nifer derbyniadau ar ddiwrnod y cyfrifiad yn wahanol i nifer y cleifion yn yr ysbyty'r diwrnod hwnnw, a bydd y ddau rif yma'n wahanol i nifer y derbyniadau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r "cyfraddau derbyn" ar gyfer cleifion iechyd meddwl yn cynnwys 3.9% o'r holl gleifion iechyd meddwl oedd yn gleifion allanol CTO ar ddiwrnod y cyfrifiad h.y. mae'r cyfraddau'n mesur cyfraddau'n seiliedig ar boblogaeth ac ar gyfer yr holl gleifion eraill ar CTO ar ddiwrnod y cyfrifiad. Ychydig iawn o gleifion anabledd dysgu oedd ar CTOau.

Megis mewn unrhyw astudiaeth, mae cafeatau yn ein canlyniadau:

1. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, defnyddiwyd amcangyfrifon poblogaeth cyfrifiad 2001 yr ONS i ddeillio'r cyfraddau derbyn. Mae'r ONS yn dweud mai brasamcanion yw'r amcangyfrifon hyn a'u bod yn dueddol o roi amcangyfrif rhy isel o niferoedd y bobl o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol.^{16,17} Yn ogystal, mae amcangyfrifon 2001 bellach yn wyth mlwydd oed, ac ers hynny mae cynnydd sylweddol wedi bod ym maint poblogaethau duon ac ethnig lleiafrifol. Mae hyn yn golygu fod y cyfraddau derbyn a ddangosir ar eu cyfer yn yr adroddiad hwn yn uwch na'r disgwyl. Mae ONS wedi cyhoeddi amcangyfrifon poblogaeth yn ôl grŵp ethnig ar gyfer 2007 i Loegr, ac rydym wedi defnyddio'r rhain yn ogystal i ddadansoddi cyfraddau derbyn yn ôl grŵp ethnig yn Lloegr.¹⁸ Fodd bynnag, mae ONS yn disgrifio'r amcangyfrifon hyn fel rhai "arbrofol", ac maent yn agored i ryw gymaint o wall. Ar ben hynny, nid ydynt ar gael ar gyfer Cymru, felly ni allwn gael cyfraddau derbyn ar gyfer Cymru a Lloegr gan ddefnyddio enwaduron poblogaethau diwygiedig.
2. Nid yw'r canlyniadau wedi eu haddasu ar gyfer diagnosis a gwybodaeth glinigol arall, felly gallai unrhyw wahaniaethau rhwng grwpiau ethnig yn natur a difrifoldeb yr afiechyd neu'r anabledd gael eu hadlewyrchu yn y canlyniadau.
3. Nid yw'r data a gasglwyd yn y cyfrifiad yn caniatáu addasiad i gymryd i ystyriaeth ffactorau economaidd-gymdeithasol megis tlodi, diweithdra neu fyw mewn dinas fewnol. Mae'r rhain yn fwy cyffredin mewn cymunedau du ac ethnig lleiafrifol. Yn yr un modd, ni ellid cymryd i ystyriaeth ffactorau cymdeithasol megis statws priodasol, pobl yn byw ar eu pennau eu hunain, wedi'u gwahanu oddi wrth un rhiant neu'r ddau, neu ddiffyg rhwydweithiau cymdeithasol. Gwyddys bod ffactorau economaidd a chymdeithasol yn gysylltiedig â risg afiechyd meddwl, a gallant effeithio ar lwybrau gofal a natur perthynas y claf â gwasanaethau.
4. Weithiau, mae'r niferoedd ar gyfer rhai grwpiau ethnig mor fach fel na allwn ddangos gwahaniaethau'n ystadegol rhagor y boblogaeth yn gyffredinol

5. Gall cyfraddau sy'n seiliedig ar niferoedd bach ac amrywiol o gleifion newid i'r ddau gyfeiriad (uchel i isel neu'r ffordd arall), o un flwyddyn i'r llall, o ganlyniad i amrywiad ar hap yn hytrach na gwirioneddol ac atchweliad at y cymedr.
6. Cynllun cyfrif un diwrnod yw'r cyfrifiad a fwriadwyd i ddarganfod niferoedd a chyfansoddiad ethnig cleifion ar y diwrnod hwnnw. Mae'n werthfawr gan ei fod yn rhoi ciplun fesul. Fodd bynnag, oherwydd ei natur, ni all roi darlun ar gyfer y flwyddyn gyfan.
7. Nid yw'r cyfrifiad yn asesu ansawdd y gwasanaethau, profiad y cleifion na'r rheswm am unrhyw wahaniaeth a ganfyddir rhwng grwpiau ethnig.
8. Rydym wedi esbonio'r rhesymwaith dros cynnwys cleifion allanol ar CTOau yn yr adroddiad hwn. Tra bod hyn yn ein galluogi i wneud sylwadau ar CTOau ar ddiwrnod y cyfrifiad, yn ogystal ag ar y rhai sy'n gleifion mewnol, mae'n golygu nad yw poblogaeth gyfan y cyfrifiad wedi ei chyfyngu i gleifion mewnol fel mewn adroddiadau blaenorol, ond mae'n cynnwys canran fechan o gleifion mewnol (3.9%).

Canlyniadau: Iechyd Meddwl

Casglwyd gwybodaeth gennym am 31,786 o gleifion ar wasanaethau iechyd meddwl 264 o sefydliadau gofal iechyd GIG ac annibynnol yng Nghymru a Lloegr. Roedd hyn yn cynnwys yr holl gleifion mewnol a 1,253 o gleifion oedd wedi eu roi ar Orchymyn Triniaeth Gymunedol (CTO) nad oeddent yn gleifion mewnol. Roedd nifer y cleifion mewnol yn y cyfrifiad hwn (30,533) tua 1.6% yn is nag yn 2008 (31,020 claf mewnol), gan barhau'r dirywiad mewn niferoedd cleifion mewnol a welwyd ym mhob cyfrifiad ers 2005. Roedd nifer y cleifion mewnol yn 2009 10% yn is nag yn 2005 (33,785 claf mewnol) (gweler Tabl 1).

Cymerodd pob sefydliad cymwys ran yn y cyfrifiad. Roedd nifer y darparwyr yn 2009 yn dal i ddangos cynnydd dros flynyddoedd blaenorol, yn bennaf oherwydd cynnydd yn y darparwyr gofal iechyd annibynnol. Mewn cyferbyniad, roedd nifer y darparwyr GIG yn Lloegr yn is nag yn y flwyddyn waelodlin yn 2005, ac ni newidiodd yng Nghymru. Mae cyfran yr holl gleifion mewnol iechyd meddwl sy'n derbyn gofal gan ddarparwyr annibynnol wedi codi o 10% o'r cyfanswm yn 2005 i 16% yn 2009.

Tabl 1: Nifer y darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl a chleifion

	GIG (Lloegr)	Annibynnol (Lloegr)	GIG (Cymru)	Annibynnol (Cymru)	Cyfanswm
Cyfrifiad 2009					
Nifer y Darparwyr	79	158	10	17	264
Nifer yr holl gleifion (yn cynnwys cleifion allanol CTO)	24,941	4,594	1,845	406	31,786
% yr holl gleifion	78.5	14.5	5.8	1.3	100
Cyfrifiad 2008					
Nifer y Darparwyr	87	141	11	16	255
Nifer o gleifion mewnol	24,842	3,931	1,892	355	31,020
% cleifion mewnol	80.1	12.7	6.1	1.1	100
Cyfrifiad 2007					
Nifer y Darparwyr	82	153	11	11	257
Nifer o gleifion mewnol	25,020	4,030	1,875	262	31,187
% cleifion mewnol	80.2	12.9	6.0	0.8	100
Cyfrifiad 2006					
Nifer y Darparwyr	97	125	11	5	238
Nifer o gleifion mewnol	26,565	3,341	1,962	155	32,023
% cleifion mewnol	83.0	10.4	6.1	0.5	100
Cyfrifiad 2005					
Nifer y Darparwyr	92	98	10	7	207
Nifer o gleifion mewnol	28,590	3,078	1,939	178	33,785
% cleifion mewnol	84.6	9.1	5.7	0.5	100

Ethnigrwydd

Roedd gwybodaeth am ethnigrwydd ar gael ar gyfer 98% o'r cleifion. O'r rhain, roedd 76% yn y grŵp Gwyn Prydeinig, a 22% yn perthyn i grwpiau du ac ethnig lleiafrifol, sef pob grŵp nad yw'n Wyn Prydeinig (cyfrifir y grwpiau Gwyn Gwyddelig a Gwyn Arall ymhlith y grwpiau du ac ethnig lleiafrifol). Mae hyn yn cymharu ag 20% yn 2005.

O gymharu â'r flwyddyn waelodlin yn 2005, cofnododd cyfrifiad 2009 gyfran is o gleifion o'r grwpiau Gwyn Prydeinig a Gwyn Gwyddelig (gweler Tabl 2). Roedd cynnydd yn y cyfrannau o gleifion o'r grwpiau Gwyn Arall, Du Caribiaidd, a Du Affricanaidd, a gostyngiad yn y gyfran o'r grŵp Du Arall. Dim ond gwahaniaethau bach oedd i'w gweld ymhlith y grwpiau ethnig arall o gymharu â'r flwyddyn waelodlin.

Tabl 2: Cleifion iechyd meddwl yn ôl grŵp ethnig

Grŵp ethnig	Cyfrifiad 2009		Cyfrifiad 2008		Cyfrifiad 2007		Cyfrifiad 2006		Cyfrifiad 2005	
	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer
Gwyn Prydeinig	75.7	24,067	76.5	23,738	77.6	24,198	78.6	25,170	79.2	26,762
Gwyddelig Gwyn	1.9	591	1.8	567	1.7	538	1.8	582	2.2	727
Gwyn Arall	4.3	1,360	4.5	1,399	4.6	1,449	3.8	1,210	3.1	1,055
Gwyn a Du Caribiaidd	1.1	336	1.1	336	0.9	288	0.9	287	0.8	255
Gwyn a Du Affricanaidd	0.3	91	0.4	110	0.3	91	0.3	102	0.2	71
Gwyn ac Asiaidd	0.4	137	0.4	117	0.3	91	0.3	109	0.3	104
Arall Cymysg	0.7	213	0.5	148	0.6	180	0.5	173	0.5	167
Indiaidd	1.4	460	1.4	426	1.3	393	1.3	411	1.3	434
Pacistanaidd	1.3	409	1.3	396	1.0	315	1.1	349	1.0	325
Bangladeshai dd	0.5	171	0.5	144	0.4	130	0.5	158	0.5	153
Asiaidd Arall	0.9	273	1.0	300	0.8	261	0.8	262	0.8	264
Du Caribiaidd	4.7	1,504	4.7	1,468	4.3	1,330	3.9	1,264	4.1	1,369
Du Affricanaidd	2.6	834	2.3	715	2.1	648	2.0	652	1.9	645
Du Arall	1.2	384	1.2	376	1.7	545	1.7	535	1.7	569
Tsieineidd	0.3	82	0.3	91	0.3	82	0.2	78	0.2	81
Arall	1.0	322	1.2	362	1.1	356	1.1	338	1.1	357
Heb ddatgan	1.7	552	1.1	327	0.9	292	1.1	342	1.2	416
Annilyd								1	0.1	31
Cyfanswm	100	31,786	100	31,020	100	31,187	100	32,023	100	33,785

Megis yn y cyfrifiadau blaenorol, roedd cleifion o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol wedi'u canoli mewn nifer cymharol fychan o sefydliadau: roedd 70% yn gleifion mewn 28 o'r 264 o sefydliadau a gymerodd ran yn y cyfrifiad. O'r holl sefydliadau, roedd gan 196 rhwng un a 50 o gleifion o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol yr un, ac nid oedd gan 31 o sefydliadau eraill yr un claf o gwbl o'r grwpiau hyn.

Adrodd ar ethnigrwydd

Adroddodd 77% o gleifion ar eu grŵp ethnig eu hunain. Gyda chleifion nad adroddodd ar eu grŵp ethnig eu hunain, gwnaed hynny ar eu rhan gan staff neu berthnasau (14% a 5% yn y drefn honno). Ni allwn fod yn sicr i ethnigrwydd y cleifion hyn gael ei gofnodi'n gywir. Amrywiodd cyfran y cleifion a adroddodd ar eu hethnigrwydd o tua 83% yn y grwpiau Gwyn i ryw 75% ymhlith y grwpiau Du.

Oed a rhyw

Mae gwahaniaethau ethnig ym mhroffiliau oed cleifion yn adlewyrchu'n bennaf broffiliau oed gwahanol boblogaethau lleiafrifol ethnig. Roedd gan y poblogaethau Gwyn Prydeinig, Gwyn Gwyddelig a Gwyn Arall strwythur oedran hŷn na'r poblogaethau ethnig lleiafrifol ac felly mae cleifion o'r grwpiau Gwyn yn hŷn na chleifion o grwpiau ethnig eraill (gweler Tabl 3).

Roedd 57% o'r cleifion yn ddynton, canran sy'n debyg i flynyddoedd blaenorol. Roedd mwy o ddynton na menywod ym mhob grŵp ethnig ar wahân i'r grŵp Tsieineaidd (gweler Tabl 3). Yn y grwpiau Gwyn Prydeinig, Gwyn Gwyddelig, Gwyn Arall a Tsieineaidd, roedd gwahaniaethau llai yng nghanrannau dynion a menywod o gymharu â grwpiau ethnig eraill.

Tabl 3: Oedran a rhyw cleifion

Grŵp ethnig	Oedran (%)					Rhyw (%)		Cyfanswm (n)
	0-17	18-24	25-49	50-64	65+	Dynion	Menywod	
Gwyn Prydeinig	3	8	40	18	31	55	45	100 (24,067)
Gwyddelig Gwyn	2	6	35	18	39	55	44	100 (591)
Gwyn Arall	3	9	45	18	25	58	42	100 (1,360)
Gwyn a Du Caribiaidd	2	17	71	7	2	71	29	100 (336)
Gwyn a Du Affricanaidd	5	16	69	7	2	73	27	100 (91)
Gwyn ac Asiaidd	9	18	60	11	3	67	33	100 (137)
Arall Cymysg	9	18	61	7	5	59	41	100 (213)
Indiaidd	2	8	58	19	12	63	37	100 (460)
Pacistanaid	4	12	64	11	8	73	27	100 (409)
Bangladeshaid	4	16	67	6	6	72	28	100 (171)
Asiaidd Arall	5	15	59	12	8	69	31	100 (273)
Du Caribiaidd	1	9	63	14	13	70	30	100 (1,504)
Du Affricanaidd	3	15	71	8	4	65	35	100 (834)
Du Arall	3	14	71	8	4	74	26	100 (384)
Tsieineaidd	10	6	65	15	5	45	55	100 (82)
Arall	3	16	57	11	14	68	31	100 (322)
Cyfanswm	3	9	44	17	27	57	43	100
	(n = 932)	(n = 2,733)	(n = 14,116)	(n = 5,376)	(n = 8,627)	(n = 18,209)	(n = 13,505)	(n = 31,786)

Iaith a chrefydd

Megis mewn cyfrifiadau blaenorol, adroddodd 6% o'r cleifion nad Saesneg oedd eu iaith gyntaf (gweler Tabl 4). Y grwpiau Tsieineaidd a Bangladeshaid oedd â'r canrannau uchaf o gleifion oedd â iaith gyntaf nad oedd yn Saesneg. Ymhlith y grŵp Gwyn Arall, roedd 28% â iaith gyntaf nad oedd yn Saesneg. Dywedodd tua 2% o gleifion fod angen cyfieithydd ar y pryd arnynt, ac o'r rhain, roedd 21% o'r grŵp Gwyn Prydeinig.

Tabl 4: Canran o gleifion â iaith gyntaf ar wahân i Saesneg

Grŵp ethnig	% gyda iaith gyntaf ar wahân i Saesneg (n)
Gwyn Prydeinig	2 (423)
Gwyddelig Gwyn	2 (12)
Gwyn Arall	28 (374)
Gwyn a Du Caribïaidd	3 (9)
Gwyn a Du Affricanaidd	8 (7)
Gwyn ac Asiaidd	7 (9)
Arall Cymysg	10 (22)
Indiaidd	32 (146)
Pacistanaidd	35 (143)
Bangladeshaid	50 (86)
Asiaidd Arall	42 (116)
Du Caribïaidd	5 (71)
Du Affricanaidd	26 (221)
Du Arall	21 (80)
Tsieineaidd	56 (46)
Arall	49 (159)
Cyfanswm	6 (1970)

Ni chofnodwyd crefydd ar gyfer 19% o'r cleifion, a dywedodd 15% o'r cleifion nad oedd crefydd ganddynt. Roedd y cyfrannau uchaf yn dweud nad oedd crefydd ganddynt ymhlith y grwpiau Gwyn/Asiaidd Cymysg, a'r cyfrannau isaf ymhlith y grwpiau De Asiaidd. Dengys tabl 5 greffydd y cleifion.

Tabl 5: Crefydd cleifion yn ôl grŵp ethnig

Grŵp ethnig	Crefydd a grwpiau ffydd (%)								
	Dim	Cristnogion	Bwdhyddion	Hindŵiaid	Iddewon	Mwslimiaid	Sikhiaid	Unrhyw grefydd arall	Heb ddatgan
Gwyn Prydeinig	16.1	59.8	0.5	0.0	0.6	0.4	0.0	3.2	19.3
Gwyddelig Gwyn	7.6	72.8	0.7	0.0	0.2	0.5	0.0	8.5	9.8
Gwyn Arall	13.4	56.7	0.7	0.1	2.4	4.2	0.1	5.1	17.3
Gwyn a Du Caribiaidd	19.3	52.4	0.6	0.0	0.6	3.3	0.0	5.4	18.5
Gwyn a Du Affricanaidd	11.0	41.8	1.1	0.0	2.2	9.9	0.0	8.8	25.3
Gwyn ac Asiaidd	22.6	32.1	0.0	5.1	0.0	15.3	2.9	2.2	19.7
Arall Cymysg	19.7	39.4	0.5	2.3	0.9	10.3	0.5	5.2	21.1
Indiaidd	6.5	9.8	0.4	32.6	0.0	14.3	23.0	1.1	12.2
Pacistanaid	3.7	4.6	0.0	1.2	0.0	76.5	1.5	1.5	11.0
Bangladeshaid	4.1	0.6	0.6	0.6	0.0	78.9	1.8	0.6	12.9
Asiaidd Arall	6.2	12.8	4.4	12.5	0.0	34.1	7.0	4.0	19.0
Du Caribiaidd	14.9	56.9	0.2	0.1	0.1	2.5	0.1	6.8	18.4
Du Affricanaidd	9.1	50.4	0.4	0.4	0.4	20.6	0.1	3.5	15.2
Du Arall	11.7	43.2	0.3	0.3	0.3	15.6	0.3	5.7	22.7
Tsieineaidd	19.5	31.7	12.2	0.0	0.0	3.7	0.0	3.7	29.3
Arall	11.8	23.0	2.2	0.9	2.8	34.2	0.0	5.9	19.3
Cyfanswm	15.0	55.8	0.6	0.7	0.7	3.9	0.5	3.6	19.3

Tueddfryd rhywiol

Nid oedd y canlyniadau'n ddilys ar gyfer 1% o'r cleifion ac i 19% o gleifion cofnodwyd yr ateb fel "ddim yn gwybod". Dywedodd 77% o'r cleifion eu bod yn heterorywiol, dywedodd 1% hoyw/lesbiaidd, dywedodd 1% ddeurywiol, dywedodd llai nag 1% "arall".

Mae'r ffigur o 2% a ddywedodd eu bod yn hoyw/lesbiaidd neu ddeurywiol yn is na'r cyfrannau o bobl hoyw/lesbiaidd neu ddeurywiol a amcangyfrifir yn y boblogaeth yn gyffredinol (mae'r amcangyfrifon hyn yn amrywio o 5% i 7%).^{19,20} Roedd y niferoedd o gleifion o grwpiau ethnig lleiafrifol oedd yn hoyw/lesbiaidd neu ddeurywiol yn isel iawn.

Anabledd

Dywedodd tua 73% o gleifion nad oedd ganddynt anabledd, a dywedodd 27% fod ganddynt un neu ragor o anableddau. O'r rhain, roedd 7% yn ddall neu â nam ar eu golwg, roedd 2% yn fyddar neu â nam ar eu clyw, roedd gan 2% anabledd dysgu, roedd gan 1% Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth, roedd gan 4% nam symudoledd ac roedd 2% mewn cadair olwyn. Roedd gan yr 8% a oedd yn weddill fwy nag un anabledd. Roedd cyfran y cleifion sydd ag anabledd ar ei huchaf ymhlith y grwpiau Gwyn Prydeinig, Gwyn Gwyddelig a Gwyn Arall (rhwng 30% a 32%), a allai adlewyrchu proffil oedran uchel y grwpiau hyn o gymharu â grwpiau ethnig eraill.

Cyfraddau derbyn (gweler yr adran ar ddehongli'r canlyniadau)

Rhoddir y cyfraddau derbyn yn Atodiad B, yn Nhablau B1a (pob oed) a B1b (65 oed a throsodd). Defnyddiwyd amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) o'r boblogaeth gyffredinol fel enwaduron wrth weithio'r cyfraddau derbyn.

Pob oedran

Gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth cyfrifiad 2001 gan yr (ONS), roedd cyfraddau derbyn ar gyfer dynion a menywod o'r grwpiau Gwyn Prydeinig, Indiaidd a Tsieineaidd yn is na'r cyfartaledd, ac roedd y cyfraddau ar gyfer y grwpiau ethnig eraill yn uwch na'r cyfartaledd. Roedd y cyfraddau'n neilltuoel o uchel ar gyfer y grwpiau Du a Gwyn/Du Cymysg, gyda chyfraddau deirgwaith neu fwy'n uwch na'r cyfartaledd. Megis mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y gyfradd uchaf ymhlith y grŵp Du Arall - naw gwaith yn uwch na'r cyfartaledd, er bod hyn yn llai nag yn 2005 pan oedd y gyfradd bron 14 gwaith yn uwch na'r cyfartaledd.

Mae'r patrymau derbyn hyn yn debyg i'r rhai a adroddwyd gennym mewn cyfrifiadau blaenorol.

65 oed a throsodd

Mae cyfraddau derbyn oed safonol ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol hŷn yn dangos patrymau gweddol debyg i'r rhai a adroddwyd ar gyfer pob oed, er bod rhai o'r canlyniadau ar gyfer grwpiau lleiafrifol heb arwyddocâd oherwydd y niferoedd bychain.

Nid oes digon o gleifion du ac ethnig lleiafrifol hŷn yn y cyfrifiad yn y rhan fwyaf o grwpiau ethnig i allu dadansoddi is-grwpiau y tu mewn iddynt, er enghraifft rhai a gedwir.

Newidiadau i amcangyfrifon poblogaeth

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol yng Nghymru a Lloegr er 2001. Mae ONS wedi cynhyrchu amcangyfrifon poblogaeth wedi'u diweddarau yn ôl grŵp ethnig ar gyfer 2007, sy'n ceisio adlewyrchu'r newidiadau hyn. Mae ONS yn disgrifio'r amcangyfrifon hyn fel rhai "arbrofol", ac maent yn agored i ryw gymaint o wall. Mae'r amcangyfrifon diwygiedig hyn ar gael ar gyfer Lloegr ond nid Cymru. . At hynny, nid ydynt yn adlewyrchu'r newidiadau demograffig rhwng 2007 a 2009. Gyda'r cafeatai hyn, rydym wedi defnyddio amcangyfrifon poblogaeth 2007 i ail-gyfrifo'r cyfraddau derbyn ar

gyfer Lloegr (Atodiad B, Tabl B2). Mae cyfraddau derbyn yn defnyddio poblogaethau 2001 hefyd yn cael eu cyflwyno er mwyn cymharu.

Dengys y canlyniadau bod defnyddio amcangyfrifon poblogaeth ONS ar gyfer 2007 yn lle amcangyfrifon 2001 yn arwain at ddangos cynnydd bychan yn y cyfraddau derbyn ar gyfer y grwpiau Gwyn Prydeinig a Gwyn Gwyddelig, a gostyngiad sylweddol yn y cyfraddau derbyn ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae patrymau derbyn cyffredinol yn aros fwy neu lai'r un peth.

Ffynhonnell cyfeirio

Gellir cyfeirio pobl at wasanaethau gofal iechyd mewn sawl ffordd. Mae cyfeiriadau ar gyfer gofal cleifion mewnol yn dod yn aml gan dimau iechyd meddwl cymunedol yn hytrach na'r ffynhonnell wreiddiol, felly gall canlyniadau'r cyfeiriadau gan dimau iechyd meddwl cymunedol gynnwys cyfeiriadau gan ffynonellau eraill, megis meddygon teulu ac adrannau damweiniau ac achosion brys (A&E). Ar ben hynny, cyfeiriwyd tua thraean o'r cleifion o ofal trydyddol, ac yn yr achosion hyn, nid oedd gwybodaeth am y ffynhonnell cyfeirio wreiddiol ar gael. Yn achos 7% o'r holl gleifion, nid oedd gwybodaeth am y ffynhonnell cyfeirio ar gael. Yn olaf, mae'r canlyniadau'n adlewyrchu'r cyfrannau o gleifion o bob grŵp ethnig sy'n cael eu cyfeirio o bob ffynhonnell, felly bydd cyfran uwch o gyfeiriadau o un ffynhonnell yn anorfod yn golygu fod cyfrannau o ffynonellau cyfeirio eraill yn is.

Mae'r patrymau cyfeirio yn weddol debyg i rai a adroddwyd yn flaenorol ac mae'r canlyniadau allweddol i'w gweld isod. Mae canlyniadau manwl am y ffynonellau cyfeirio ar gael ar:

<http://www.cqc.org.uk/guidanceforprofessionals/healthcare/allhealthcarestaff/coun-tmeincensus.cfm>

Cyfeiriadau gan feddygon teulu

Cyfeiriwyd 19% o gleifion gan feddygon teulu. Roedd cyfraddau ymhlith y grŵp Gwyn Prydeinig 8% yn uwch na'r cyfartaledd. Roedd cyfraddau ymhlith y grwpiau Gwyn Arall, Du Caribiaidd, Gwyn/Du Caribiaidd Cymysg, Du Affricanaidd ac Arall yn is na'r cyfartaledd o 26% i 64%. Rhoddir cyfraddau cyfeirio gan feddygon teulu yn Atodiad B, Tabl B3.

Cyfeiriadau gan adrannau damweiniau ac achosion brys

Cyfeiriwyd pump y cant o gleifion gan adrannau damweiniau ac achosion brys. Roedd gan y grŵp Gwyn Prydeinig gyfradd gyfeirio 7% yn is na'r cyfartaledd. Roedd y grwpiau Bangladeshaidd, Asiaidd Arall, Du Affricanaidd a Tsieineaidd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i gael eu cyfeirio fel hyn.

Cyfeiriadau gan dimau cymunedol

Cyfeiriwyd ychydig dros chwarter (27%) o gleifion gan dimau cymunedol. Roedd gan y grŵp Gwyn Prydeinig gyfradd 4% uwch na'r cyfartaledd o'r cyfeiriadau hyn. Roedd y cyfeiriadau tua 23% yn is na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau Du Caribiaidd, Du Affricanaidd a Gwyn/Du Caribiaidd Cymysg, a tua 18% yn is ymhlith y grwpiau Gwyn Gwyddelig a Gwyn Arall. Rhoddir cyfraddau cyfeirio yn Atodiad B, Tabl B4.

Cyfeiriadau gan y gyfundrefn cyfiawnder troseddol

Cyfeiriwyd deg y cant o gleifion trwy'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol (a ddiffinnir fel yr heddlu, llysoedd, gwasanaeth prawf, carchar a gwasanaeth cysylltu ac arallgyfeirio'r llysoedd).

Roedd cleifion o'r grŵp Gwyn Prydeinig a Gwyn Arall yn llai tebygol na'r cyfartaledd o gael eu cyfeirio fel hyn, tra bod gan y grwpiau Du Caribiaidd, Du Affricanaidd a Gwyn/Du Caribiaidd Cymysg yn 40-60% yn uwch na'r cyfartaledd i gael eu cyfeirio drwy'r asiantaethau cyfiawnder troseddol. Ni welwyd gwahaniaethau o'r gyfradd gyfartalog ar gyfer grwpiau ethnig eraill. Rhoddir y cyfraddau cyfeirio trwy'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol yn Atodiad B, Tabl B5.

Gofal trydyddol: cyfeiriadau gan unedau diogelwch canolig neu uchel

Roedd cyfran sylweddol (36%) o'r holl gyfeiriadau gan ofal trydyddol. Cyfeiriwyd pump y cant o gleifion gan unedau diogelwch canolig neu uchel yn y GIG neu'r sectorau annibynnol. Roedd cyfraddau cyfeiriadau o'r fath yn is na'r cyfartaledd ymhlith the grwpiau Gwyn Arall, Indiaidd a Bangladeshaidd. Roedd yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau Gwyddelig Gwyn a Du Caribiaidd o 43% ac 80% yn ôl eu trefn.

Gofal trydyddol: cyfeiriadau gan wasanaethau eraill i gleifion mewnol

Cyfeiriwyd 21% o gleifion gan wasanaethau eraill i gleifion mewnol, yn rhai GIG a rhai annibynnol. Roedd cyfradd cyfeiriadau o'r fath yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grŵp Gwyddelig Gwyn, Gwyn Arall a Gwyn/ Du Caribiaidd Cymysg o 19%, 58% a 26% yn ôl eu trefn. Roedd y gyfradd yn is na'r cyfartaledd yn y grwpiau Gwyn Prydeinig a Bangladeshaidd.

Gofal trydyddol: cyfeiriadau gan wasanaethau clinigol arbenigol eraill

Cyfeiriwyd deg y cant o gleifion gan wasanaethau clinigol arbenigol eraill. Roedd cyfraddau cyfeiriadau o'r fath yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau Indiaidd, ac yn is na'r cyfartaledd ymhlith grwpiau Gwyddelig Gwyn, Gwyn Arall, Gwyn/Du Affricanaidd Gymysg a Du Affricanaidd.

Cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ar y diwrnod derbyn)

Gwnaeth Deddf Iechyd Meddwl 2007 nifer o newidiadau i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Adlewyrchir y newidiadau hyn yng nghyfrifiad 2009, oedd yn casglu gwybodaeth ar ddarpariaethau newydd y sefydlu triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth (adran 17A) ac a eithiodd rhyddhau dan oruchwyliaeth (adran 25A) gafodd ei ddiddymu.

Fel yn yr adroddiadau blaenorol, cyflwynwn isod y canlyniadau ar gyfer y cyfraddau cadw ar y diwrnod derbyn. Wedyn, rydym yn cyflwyno dadansoddiad o orchmynion triniaeth gymunedol (Cacti) ar ddiwrnod y cyfrifiad.

Pob achos o gadw

Cadwyd 47% (15,092) o gleifion dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar ddiwrnod eu derbyn i'r ysbyty. Roedd hyn yn gyfran uwch nag a gofnodwyd mewn cyfrifiadau

blaenorol: 45% yn 2008, 43% yn 2007, a 40% yn 2005 a 2006.

Roedd cyfraddau cadw 6% yn is na'r cyfartaledd ymhlith cleifion Gwyn Prydeinig. Roedd rhai o'r grwpiau Du Caribïaidd, Du Affricanaidd, Du Arall a Gwyn/Du Caribïaidd Cymysg o 20% i 36% yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i gael eu cadw. Roedd cyfraddau cadw hefyd yn uwch yn y grwpiau Gwyn Arall (o 11%), Asiaidd Arall (17%) a Phacistanaid (o 19%). Ni welwyd gwahaniaethau ethnig eraill. Rhoddir y cyfraddau cadw yn Atodiad B, tabl 7.

Mae'r patrymau hyn yn ddigon tebyg i'r rhai a adroddwyd mewn cyfrifiadau blaenorol. Mae cyfraddau cadw wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau Du Caribïaidd, Du Affricanaidd a Du Arall yn y pum cyfrifiad blynyddol a gynhaliwyd o 2005 i 2009, heb dystiolaeth o ostyngiad o'r waelodlin yn 2005. Roedd cyfraddau cadw'n uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grŵp Gwyn Arall yn y tri chyfrifiad diweddaraf.

Cadw dan adran 2

Mae adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhoi awdurdod i rywun gael ei gadw mewn ysbyty i'w asesu am gyfnod heb fod yn hwy na 28 diwrnod. Fe'i defnyddir yn bennaf lle nid yw'r gwasanaeth yn adnabod y claf neu ble mae cyfnod sylweddol wedi bod rhwng cyfnodau triniaeth fel claf mewnol.

O'r holl gleifion a gadwyd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, cadwyd 20% dan adran 2. Roedd cyfraddau cadw dan yr adran hon yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau Gwyn Arall, Bangladeshaidd, Asiaidd Arall, Du Affricanaidd, Du Arall, Tsieineaidd ac Arall o rhwng 22% a dwbl (gweler Atodiad B, tabl B7).

Nid yw'r cyfraddau dros amser yn ôl grŵp ethnig yn gyson, ac mae gan rai grwpiau gyfradd uchel mewn rhai cyfrifiadau ac nid mewn eraill. Fel y nodwyd yn yr adran Dulliau, gall hyn fod oherwydd newidiadau ar hap o flwyddyn i flwyddyn yn y niferoedd bychain gwaelodol o gleifion mewn rhai grwpiau ethnig.

Cadw dan adran 3

Mae adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn darparu ar gyfer derbyn claf i ysbyty'n orfodol i dderbyn 'triniaeth' ac i'w gadw neu ei chadw wedi hynny, a all bara am gyfnod cychwynnol o hyd at chwe mis, ac y gellir ei adnewyddu wedi hynny.

O'r holl gleifion a gadwyd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, cadwyd 45% dan yr adran hon. Roedd y cyfraddau'n uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau Du Caribïaidd, Du Arall a Gwyn/Du Affricanaidd Cymysg o 30%, 27% a 44% yn ôl eu trefn. Roedd y gyfradd hefyd 13% yn uwch yn y grŵp Gwyn Arall. Rhoddir y cyfraddau cadw dan adran 3 yn Atodiad B, tabl B8.

Ni welwyd gwahaniaethau ethnig o ran cadw dan adran 3 yn 2005 a 2006, er bod cyfraddau cadw'n uwch na'r cyfartaledd yn y tri chyfrifiad diwethaf mhlith y grwpiau Du Caribïaidd a Du Arall.

Cadw dan adran 37/41

Mae adran 37 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn caniatáu i lys anfon rhywun i'r ysbyty i dderbyn triniaeth pan allai fod wedi derbyn cyfnod o garchar fel arall, ac mae adran

41 yn caniatáu i lys osod cyfyngiadau ar rywun wrth ei ryddhau o'r ysbyty. Yn gyffredinol, ystyrir bod derbyn rhywun i ysbyty yn hytrach na charchar yn fwy cadarnhaol i'r person dan sylw.

O'r cleifion a gadwyd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, cadwyd 13% dan adran 37 gyda gorchymyn cyfyngiad dan adran 41. Rhoddir y cyfraddau cadw yn Atodiad B, tabl B9. Roedd y gyfradd cadw ar gyfer y grŵp Gwyn Prydeinig 12% yn is na'r cyfartaledd, ond roedd yn uwch na'r cyfartaledd yn y grŵp Gwyn/Du Caribiaidd Cymysg o 89%, y grŵp Du Caribiaidd o 107%, a'r grŵp Du Arall o 28%. Ym mhob grŵp ethnig, ychydig iawn o fenywod a gadwyd dan adran 37/41.

Un patrwm cyson ar draws y pum cyfrifiad blynyddol oedd cyfradd cadw uwch na'r cyfartaledd dan adran 37/41 ar gyfer y grwpiau Du Caribiaidd a Du Arall.

Cadw dan adrannau 47, 48 a 47/49

Mae'r adrannau hyn o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn caniatáu i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyhoeddi cyfarwyddyd i drosglwyddo rhywun a gedwir mewn carchar i'r ysbyty i dderbyn triniaeth.

O'r cleifion a gadwyd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, cadwyd 6% dan yr adrannau hyn. Yr unig wahaniaeth ethnig a welwyd oedd cyfradd cadw 49% uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grŵp Du Caribiaidd. Ni welwyd gwahaniaethau ethnig, mae'n debyg, am fod y niferodd dan gadw dan yr adrannau hyn yn isel yn y rhan fwyaf o grwpiau ethnig lleiafrifol. Rhoddir y cyfraddau cadw hyn yn Atodiad B, tabl B10.

Ni ddangosodd y pedwar cyfrifiad blaenorol bron ddim gwahaniaethau ethnig ar gyfer cyfraddau cadw dan adrannau 47, 48 a 47/49.

Cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ar ddiwrnod y cyfrifiad)

Roedd cyfraddau cadw ar gyfer y gwahanol grwpiau ethnig ar ddiwrnod y cyfrifiad, o gymharu â chyfraddau cadw ar ddiwrnod derbyn cleifion i'r ysbyty, yn debyg iawn. Ar ddiwrnod y cyfrifiad ac ar y diwrnod derbyn, roedd cyfraddau'n uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau Du Caribiaidd, Du Affricanaidd, Du Arall a Gwyn/Du Caribiaidd Cymysg. Gwelwyd yr un patrwm yn achos y grwpiau Gwyn Arall, Pacistanaidd ac Asiaidd Arall.

Triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth dan adran 17A

Cafodd gorchymynion triniaeth gymunedol (CTOau) eu cyflwyno ym mis Tachwedd 2008, o ganlyniad i Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Maent yn caniatáu i driniaeth dan oruchwyliaeth gael ei darparu am hyd at chwe mis, gyda'r posibilrwydd o estyniad wedi hyn. Bwriad y gorchymynion hyn yw helpu cleifion i gynnal iechyd meddwl sefydlog y tu allan i'r ysbyty ac i hyrwyddo adferiad drwy ddarparu grym i weithwyr proffesiynol i sefydlu amodau wrth ryddhau o'r ysbyty a grym i alw cleifion yn ôl os nad yw'r amodau'n cael eu cadw.

O'r 1,371 claf ar CTOau, roedd 9% rhwng 18 a 24 mlwydd oed, 63% rhwng 24 a 49 mlwydd oed, a'r gweddill dros 50. Roedd yn agos i ddwy ran o dair (65%) o'r cleifion hyn yn ddynion.

Roedd pedwar y cant o'r holl gleifion ar CTOau. Rhoddir y cyfraddau cadw yn Atodiad B, tabl B11. Ni chafodd gwybodaeth am ethnigrwydd ei 'ddatgan' am tua 8% o'r 1,371 claf oedd yn destun adran 17A, ac roedd rhaid anwybyddu'r cleifion hyn wrth ddadansoddi. Felly mae angen bod yn wylidwrus gyda'r canlyniadau a gyflwynir yma. Roedd cyfradd triniaeth dan oruchwyliaeth ar gyfer y grŵp Gwyn Prydeinig yn 9% yn is na'r cyfartaledd. Roedd y gyfradd hefyd yn is ar gyfer y grŵp Gwyddelig Gwyn, ond roedd hyn yn seiliedig ar nifer fach iawn o gleifion. Roedd y gyfradd yn uwch na'r cyfartaledd yn y grwpiau Indiaidd, Bangladeshaid, Du Caribïaidd a Du Arall o rhwng 43% a 87%.

Cydsyniad

Barnwyd bod tua 26% o gleifion mewnol a dderbyniwyd yn anffurfiol yn analluog i gydsynio i driniaeth. Ni welwyd gwahaniaethau ethnig.

Barnwyd bod tua 20% o gleifion dan gadw yn analluog i gydsynio i driniaeth. Roedd y cyfraddau hyn yn is na'r cyfartaledd o 7% yn y grŵp Gwyn Prydeinig ac yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau Du Caribïaidd a Du Affricanaidd o 27% a 41% yn ôl eu trefn.

Yn ogystal, barnwyd bod 13% o gleifion oedd wedi eu cadw neu ar CTOau yn alluog i gydsynio i driniaeth ond iddynt wrthod gwneud hynny. Roedd cyfradd gwrthod yn y grŵp Gwyn Prydeinig o 11% yn is na'r cyfartaledd, ac roedd cyfraddau'n uwch na'r cyfartaledd ymhlith y tri grŵp Du (Du Caribïaidd, Du Affricanaidd, Du Arall) ac yn y grwpiau Gwyn/Du Caribïaidd Cymysg. Roedd cyfraddau'n uwch hefyd yn y grŵp Indiaidd.

Dull rhaglen gofal

Y Dull Rhaglen gofal (CPA) yw'r broses i bawb sy'n rhan o'r gwaith gytuno, cydlynu a deall triniaeth, gofal a chefnogaeth ar gyfer pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl difrifol, ac anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cysylltiedig. Nodweddion y rhai sydd angen CPA 'uwch' yw pobl sydd angen: cefnogaeth amlasiantaethol; cyfranogiad gweithredol; ymyrryd dwys; cefnogaeth gyda diagnosis ddwbl a'r rhai sydd â risg uwch, gyda COA 'safonol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r rhai sydd ag anghenion symlach o fewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Fodd bynnag, o fis Hydref 2008, golygodd newidiadau i'r CPA yn Lloegr nad oes bellach gategoreiddio dwy haen o'r CPA yn 'safonol' ac yn 'uwch', ac mai dim ond un categori o CPA uwch sy'n bod. Mae hyn yn gwneud polisi CPA yn Lloegr yn wahanol i'r un yng Nghymru, lle na chafwyd newid i'r polisi a lle mae'r gwahaniaethu'n dal yn digwydd. Mae'r data CPA a gyflwynir yma felly yn cynnwys dim ond cleifion CPA uwch yn Lloegr, a'r cleifion CPS 'safonol' ac 'uwch' yng Nghymru.

Roedd tua 87% o gleifion ar CPA, 3% ar broses asesu unigol (SAP) lle mae asesiadau'n cael eu gwneud ar gyfer oedolion ag anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol, ac roedd 10% heb fod ar CPA na SAP. Gan fod y rhan fwyaf o gleifion ar CPA, ni sylwyd ar unrhyw wahaniaethau ethnig.

Cofnodi digwyddiadau

Holodd cyfrifiad 2009 faint o weithiau y profodd cleifion neilltuo, ataliaeth gorfforol, hunan-niweidio, damweiniau ac ymosodiadau corfforol yn ystod eu cyfnod presennol o fod yn yr ysbyty, neu os oedd y cyfnod yn hwy na thri mis, y nifer a ddigwyddodd yn ystod y tri mis diwethaf. Dylid nodi y gall cyfraddau digwyddiadau o'r fath ymhlith grwpiau ethnig lleiafrifol ddangos amrywiaeth o flwyddyn i flwyddyn oherwydd nifer isel y digwyddiadau mewn sawl grŵp.

Neilltuo

Roedd pedwar y cant o gleifion wedi cael eu neilltuo unwaith neu ragor. Roedd gan y grŵp Gwyn Prydeinig gyfradd neilltuo a oedd 19% yn is na'r cyfartaledd. Yr unig wahaniaethau ethnig a welwyd oedd cyfraddau uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau Gwyn Arall a Gwyn/Du Caribïaidd Cymysg, o 64% a 90% yn eu trefn.

Er bod nifer yr achosion neilltuo'n isel mewn sawl grŵp ethnig lleiafrifol, dyma rai o'r patrymau cyffredinol dros y pum cyfrifiad hyd yn hyn:

- Parhâi'r gyfran o'r holl gleifion a oedd wedi cael eu neilltuo yn weddol gyson dros y pum cyfrifiad ar o gwmpas 4%.
- Roedd y gyfradd neilltuo'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y tri grŵp Du (Du Caribïaidd, Du Affricanaidd, Du Arall) mewn dau neu ragor o'r pedwar cyfrifiad cyntaf hyd at 2008, ond nid yn 2009.

Ataliaeth gorfforol

Diffiniwyd ataliaeth gorfforol fel atal corfforol ar glaf gan un neu ragor o staff mewn ymateb i ymddygiad ymosodol neu wrthwynebu triniaeth. Roedd tua 11% o gleifion wedi profi ataliaeth gorfforol unwaith neu ragor. Yr unig wahaniaeth ethnig a welwyd oedd cyfradd 28% is na'r cyfartaledd ymhlith y grŵp Du Caribïaidd. Nid oes patrwm cyson wedi ymddangos dros y pum cyfrifiad am wahaniaethau ethnig parthed ataliaeth gorfforol.

Hunan-niweidio

Roedd saith y cant o gleifion wedi'u niweidio'u hunain unwaith neu ragor. Dim ond yn y grŵp Gwyn Prydeinig yr oedd y gyfradd yn uwch na'r cyfartaledd (o 14%). Roedd cyfraddau yn is na'r cyfartaledd ymhlith y tri grŵp Du (Du Caribïaidd, Du Affricanaidd a Du Arall) o 52% i 79%, ac ymhlith y grwpiau Asiaidd o 61% i 73%.

O gymharu â blynyddoedd blaenorol:

- Parhâi cyfran yr holl gleifion a oedd wedi'u niweidio'u hunain yn weddol gyson o gwmpas 7%.
- Ym mhob un o'r pum cyfrifiad, roedd gan y grŵp Gwyn Prydeinig gyfradd uwch na'r cyfartaledd o hunan-niweidio, ac roedd gan y grwpiau Du a De Asiaidd gyfradd is na'r cyfartaledd o hunan-niweidio.

Damweiniau

Roedd tua 11% o gleifion wedi cael un neu ragor o ddamweiniau. Cafodd cleifion o'r grŵp Gwyn Arall gyfradd damweiniau a oedd 4% yn uwch na'r cyfartaledd. Roedd cyfraddau'n is na'r cyfartaledd yn y grwpiau Du Caribïaidd a Phacistanaid o 61% a 54% yn ôl eu trefn.

O ran cymariaethau â chyfrifiadau'r blynyddoedd cynt:

- Daliodd cyfran yr holl gleifion oedd wedi cael damwain yn weddol gyson.
- Roedd gan y grŵp Du Caribïaidd gyfradd damweiniau is na'r cyfartaledd ym mhob un o'r cyfrifiadau, ond roedd cyfraddau ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol eraill yn amrywiol.

Ymosodiad corfforol ar y claf

Mae'r diffiniad o ymosodiad yn cynnwys ymosodiadau corfforol ar y claf, ni waeth pwy a ymosododd. Nid oes gennym wybodaeth am bwy a ymosododd, er enghraifft, claf arall neu aelodo staff. Roedd deg y cant o gleifion wedi profi ymosodiad corfforol unwaith neu ragor. Yr unig wahaniaeth ethnig a welwyd oedd cyfradd 53% uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grŵp Gwyn/Du Caribïaidd Cymysg.

O ran cymariaethau â chyfrifiadau'r blynyddoedd cynt:

- Parhâi cyfran yr holl gleifion yn profi ymosodiad corfforol yn weddol gyson.
- Roedd patrymau'n amrywiol ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol.

Hyd arhosiad yn yr ysbyty

Dadansoddwyd hyd y cyfnod rhwng derbyn pob claf mewnol i'r ysbyty a diwrnod y cyfrifiad. Wrth reswm, mae'r cyfnod hwn yn fyrrach na hyd arhosiad llawn y claf yn yr ysbyty, sy'n rhedeg o'r diwrnod derbyn hyd y dyddiad rhyddhau.

- Roedd 25% o'r cleifion mewnol yn yr ysbyty ers mis neu lai
- roedd 21% yn yr ysbyty ers rhwng mis a thri mis
- roedd 13% yn yr ysbyty ers rhwng tri mis a chwe mis
- roedd 11% yn yr ysbyty ers rhwng chwe mis a blwyddyn
- roedd 10% yn yr ysbyty ers rhwng blwyddyn a dwy flynedd

- roedd 11% yn yr ysbyty rhwng ers dwy flynedd a phum mlynedd
- roedd 8% yn yr ysbyty ers dros bum mlynedd
- Nid oedd modd canfod hyd arhosiad ar gyfer 1% (380) o gleifion mewnlol.

Mae patrymau hyd arhosiad yn debyg iawn i batrymau'r cyfrifiadau blaenorol. Roedd tua 29% o'r cleifion yng nghyfrifiad 2009 wedi bod yn yr ysbyty am dros flwyddyn, ac felly roeddent wedi cael eu cynnwys yng nghyfrifiad 2008. Roedd 20% arall o'r cleifion wedi bod yn yr ysbyty am dros ddwy flynedd, a byddant wedi cael eu cynnwys yng nghyfrifiadau 2007 a 2008, a bydd 8% o'r cleifion wedi cael eu cynnwys ym mhob cyfrifiad ers 2005.

Cyfrifwyd canolrif yr arhosiad ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig gennym. Y canolrif yw'r pwynt canol yn yr ystod o werthoedd, felly canolrif hyd arhosiad grŵp ethnig neilltuol yw hwnnw lle mae gan hanner y cleifion yn y grŵp ethnig hwnnw hyd arhosiad sy'n llai na'r canolrif, ac roedd gan hanner arhosiad sy'n hwy na'r canolrif. Yn gyffredinol, ac fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd canolrif arhosiad menywod yn yr ysbyty tua deufis a hanner, ac roedd y canolrif i ddynion tua phum mis a hanner (gweler Tabl 6). Yn y rhan fwyaf o grwpiau ethnig, roedd dynion wedi bod yn yr ysbyty tua dwywaith yn hwy na menywod.

Roedd canolrif hyd yr arhosiad ymhlith y rhai hwyaf ar gyfer cleifion o'r grwpiau Du Caribïaidd a Gwyn/Du Caribïaidd Cymysg, ac ymhlith y byrraf yn y grwpiau Tsieineaidd, De Asiaidd, Affricanaidd, Gwyn Prydeinig ac Arall. Mae'r patrymau hyn yn debyg i'r rhai a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae'n bwysig nodi bod sawl ffactor yn effeithio ar hyd arhosiad claf yn yr ysbyty, gan gynnwys oed, rhyw, a ydynt yn cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ai peidio (ac o dan ba adran y maent yn cael eu cadw ac oes gorchymyn cyfyngiad ychwanegol), natur a difrifoldeb eu hafiechyd, natur eu triniaeth ac a oes cefnogaeth ar gael yn y gymuned. Nid yw'r data yn y cyfrifiad yn caniatáu inni ddadansoddi'r ffactorau hyn.

Tabl 6: Canolrif y dyddiau o ddyddiad derbyn i ddyddiad y cyfrifiad

Grŵp ethnig	Personau	Dynion	Menywod
Gwyn Prydeinig	106	152	71
Gwyddelig Gwyn	149	201	102
Gwyn Arall	155	218	106
Gwyn a Du Caribïaidd	258	322	154
Gwyn a Du Affricanaidd	154	208	112
Gwyn ac Asiaidd	184	215	180
Arall Cymysg	175	267	96
Indiaidd	104	142	76
Pacistanaid	112	144	60
Bangladeshaid	75	87	49
Asiaidd Arall	85	103	76
Du Caribïaidd	207	262	123
Du Affricanaidd	110	152	61
Du Arall	140	146	116
Tsieineaidd	85	195	56
Arall	80	92	58
Cyfanswm	112	159	75

Diogelwch wardiau

Megis yn 2007 a 2008, roedd tua 12% o'r holl gleifion ar ward diogelwch canolig neu uchel, o gymharu â ward gyffredinol (74%) neu ddiogelwch isel (14%).

Roedd cleifion o'r grwpiau Gwyn Prydeinig, Indiaidd a Bangladeshaid yn llai tebygol na'r cyfartaledd i fod ar ward diogelwch canolig neu uchel, o 10%, 37% a 36% yn y drefn honno. Roedd cleifion o'r grwpiau Du Caribïaidd, Du Affricanaidd a Gwyn/Du Caribïaidd Cymysg yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod ar ward diogelwch canolig neu uchel (o hyd at 72%). Roedd cleifion o'r grwpiau Gwyn Gwyddelig a Chymysg Arall hefyd yn fwy tebygol o fod ar wardiau o'r fath.

Ystod oedran ar wardiau

Roedd 107 o gleifion dan 18 oed yn derbyn gofal ar wardiau ar gyfer oedolion mewn oed i weithio ac roedd un claf ar wardiau ar gyfer pobl hŷn. Roedd bron 6% o'r cleifion ar wardiau ar gyfer oedolion mewn oed i weithio yn 65 oed neu drosodd, ac roedd 9% o'r rhai ar wardiau i bobl hŷn yn oedolion mewn oed i weithio. Nid oedd ond ychydig iawn o leoliadau 'oed anghywir' ymhlith grwpiau ethnig lleiafrifol.

Cleifion mewn wardiau un rhyw neu gymysg penodedig *

Gofynnwyd i ddarparwyr a oedd cleifion ar ward a ddynodir ar gyfer dynion neu fenywod yn unig, neu ryw gymysg. Rhwng pawb, nid oedd 67% o gleifion (dynion 59%, menywod 76%) mewn ward un rhyw, yn debyg i gyfrannau 2007 a 2008. Roedd cyfran y cleifion heb fod mewn ward un rhyw yn is ymhlith pob grŵp ethnig lleiafrifol nag ymhlith y grŵp Gwyn Prydeinig. Ym mhob grŵp ethnig, roedd cyfran y dynion heb fod mewn ward un rhyw yn is nag ymhlith menywod (gweler Tabl 7a).

Roedd dau gwestiwn arall yn edrych ar y cyfleusterau i un rhyw sydd ar gael i gleifion.

* Gellir disgrifio ward fel ward un rhyw (hy bwriedir i'r ward fod ar gyfer dynion neu fenywod ac nid yn un cymysg) lle bo'r llety'n cydymffurfio â'r diffiniad canlynol gan yr Adran Iechyd o lety un rhyw: "Rhaid i fannau cysgu fod ar wahân, ac nid oes raid i aelodau o'r naill ryw gerdded trwy fannau sy'n eiddo i'r rhyw arall i gyrraedd toiledau neu ystafelloedd ymolchi. Rhaid darparu toiledau ac ystafelloedd ymolchi ar wahân i ddynion a menywod yn unig. Dylai fod ystafelloedd dydd ar wahân ar gyfer menywod yn unig." Fodd bynnag, ceir anghysondeb i ddarparwyr oherwydd gall llety a ddynodir yn 'ward' i ddibenion gweinyddol ymgorffori llety un rhyw ar gyfer y ddau ryw sy'n bodloni'r canllawiau – ond yn yr achos hwn byddai'r ward yn parhau i fod yn 'gymysg'; (yn seiliedig ar gyfarwyddyd o Safety, Privacy and Dignity, yr Adran Iechyd, 2000).

Cyhyd â bod dynion a menywod yn derbyn gofal mewn cilfachau neu ystafelloedd ar wahân, a bod ganddynt eu toiledau eu hunain, yna gall fod yn briodol iddynt fod ar yr un ward, yn derbyn gofal gan yr un tîm o feddygon a nysys. Yn ymarferol, gellir neilltuo'n llwyddiannus os oes gan ddynion a menywod fannau cysgu ar wahân (er enghraifft, cilfachau un rhyw) ac thoiledau ac ystafelloedd ymolchi ar wahân y gallant eu cyrraedd heb basio trwy fannau ar gyfer y rhyw arall (neu'n agos iddynt). Dylai cynllun y wardiau leihau'r risg o ddigwydd gweld a chlywed gan y rhyw arall (o Privacy and Dignity – A report by the Chief Nursing Officer into mixed sex accommodation in hospitals, yr Adran Iechyd, 2007).

Tabl 7a: Canran y cleifion nad ydynt mewn ward un rhyw yn ôl grŵp ethnig

Grŵp ethnig	Rhyw y cleifion sydd i fod i ddefnyddio ward					
	Gwryw		Benyw		Personau	
	Ward dynion	Ward menywod neu gymysg*	Ward menywod	Ward dynion neu gymysg*	Ward briodol	Ward amhriodol neu gymysg*
Gwyn Prydeinig	37	63	22	78	30	70
Gwyddelig Gwyn	41	59	25	75	34	66
Gwyn Arall	42	58	29	71	36	63
Gwyn a Du Caribïaidd	62	38	36	64	54	46
Gwyn a Du Affricanaidd	58	42	28	72	49	50
Gwyn ac Asiaidd	49	51	29	71	42	58
Arall Cymysg	52	48	29	71	42	57
Indiaidd	41	59	27	73	36	64
Pacistanaidd	52	47	38	62	49	51
Bangladeshaid	38	62	29	71	36	64
Asiaidd Arall	45	55	27	73	40	60
Du Caribïaidd	62	38	33	67	53	47
Du Affricanaidd	58	42	38	62	51	49
Du Arall	46	54	30	70	42	58
Tsieineaidd	32	68	16	84	23	77
Arall	51	49	21	79	41	58
Cyfanswm	41	59	23	77	33	67

*Roedd y mwyafrif llethol o gleifion yn y categori hwn mewn wardiau cymysg; ychydig iawn (0.1%) o gleifion gwryw a oedd ar wardiau menywod yn unig, neu fel arall.

Mynediad cleifion i gyfleusterau toiled a bathio wedi'u pennu i'w defnyddio gan un rhyw

Gofynnwyd i ddarparwyr a oes gan cleifion fynediad i gyfleusterau toiled a bathio wedi'u pennu i'w defnyddio gan un rhyw. Yn gyffredinol, adroddwyd nad oedd gan 19% o ddynion a 24% o fenywod fynediad i gyfleusterau toiled a bathio wedi'u pennu i'w defnyddio gan un rhyw. Roedd cyfradd y cleifion heb fynediad i gyfleusterau toiled a bathio wedi'u pennu i'w defnyddio gan un rhyw yn is ymhlith bron pob grŵp ethnig lleiafrifol nag ymhlith y grŵp Gwyn Prydeinig (gweler tabl 7b am fanylion).

Tabl 7b: Canran o gleifion heb fynediad i gyfleusterau toiled a bathio wedi'u bwriadu ar gyfer eu defnyddio gan un rhyw yn ôl grŵp ethnig

Grŵp ethnig	Mynediad i gyfleusterau bathio a thoiled un rhyw					
	Gwryw		Benyw		Personau	
	Cyfleusterau dynion	Cyfleusterau menywod neu gymysg*	Cyfleusterau menywod	Cyfleusterau dynion neu gymysg*	Cyfleusterau priodol	Cyfleusterau amhriodol neu gymysg*
Gwyn Prydeinig	80	20	76	24	78	22
Gwyddelig Gwyn	83	17	78	22	81	19
Gwyn Arall	82	18	75	25	79	20
Gwyn a Du Caribïaidd	91	9	85	15	89	11
Gwyn a Du Affricanaidd	83	17	80	20	82	18
Gwyn ac Asiaidd	85	15	89	11	86	14
Arall Cymysg	87	13	91	9	88	11
Indiaidd	80	20	80	19	80	19
Pacistanaidd	88	12	79	21	86	14
Bangladeshaid	84	16	90	10	85	15
Asiaidd Arall	86	14	86	14	86	14
Du Caribïaidd	85	15	78	22	83	17
Du Affricanaidd	86	14	84	16	85	14
Du Arall	79	21	84	16	80	20
Tsieineaidd	76	24	67	33	71	29
Arall	88	12	77	23	84	16
Cyfanswm	81	19	76	24	79	21

* Roedd gan fwyaf hysbyswyr helaeth y cleifion yn y categori hwn fynediad i gyfleusterau cymysg; ychydig iawn (llai na 1%) o ddynion oedd â mynediad i gyfleusterau i fenywod yn unig, a'r ffordd arall.

Mynediad cleifion i lolfa ac ardal/gofod dydd wedi ei ddynodi i'w ddefnyddio gan un rhyw yn unig

Gofynnwyd i'r darparwyr hefyd a oes gan y claf fynediad i lolfa ac ardal/gofod dydd wedi'i bennu ar gyfer ei ddefnyddio gan un rhyw. Yn gyffredinol, adroddwyd nad oedd gan 48% o ddynion a 51% fynediad i lolfa ac ardal/gofod dydd wedi'i bennu ar gyfer ei ddefnyddio gan un rhyw. Roedd cyfradd y cleifion heb fynediad i lolfa ac ardal/gofod dydd wedi'i bennu ar gyfer ei ddefnyddio gan un rhyw yn is ymhlith y rhan fwyaf o grwpiau ethnig lleiafrifol nag ymhlith y grŵp Gwyn Prydeinig (gweler tabl 7c am fanylion).

Tabl 7c: Canran y cleifion heb fynediad i lolfa ac ardal/gofod dydd wedi'i bennu ar gyfer ei ddefnyddio gan un rhyw yn ôl grŵp ethnig

Grŵp ethnig	Mynediad i lolfa ac ardal/gofod dydd					
	Gwryw		Benyw		Personau	
	Cyfleusterau dynion	Cyfleusterau menywod neu gymysg*	Cyfleusterau menywod	Cyfleusterau dynion neu gymysg*	Cyfleusterau priodol	Cyfleusterau amhriodol neu gymysg*
Gwyn Prydeinig	50	50	49	51	49	51
Gwyddelig Gwyn	48	52	50	50	49	51
Gwyn Arall	54	46	52	48	53	47
Gwyn a Du Caribïaidd	70	30	59	41	67	33
Gwyn a Du Affricanaidd	64	36	72	28	66	34
Gwyn ac Asiaidd	60	40	56	44	58	42
Arall Cymysg	62	38	59	41	60	40
Indiaidd	48	52	48	52	48	52
Pacistanaidd	55	45	53	47	54	46
Bangladeshaid	46	54	56	44	49	51
Asiaidd Arall	53	47	57	43	54	46
Du Caribïaidd	64	36	50	50	59	41
Du Affricanaidd	62	38	59	41	61	39
Du Arall	51	49	54	46	52	48
Tsieineaidd	54	46	47	53	50	50
Arall	58	42	52	48	56	44
Cyfanswm	52	48	49	51	41	49

* Roedd gan fwyafrif helaeth y cleifion yn y categori hwn fynediad i gyfleusterau cymysg; ychydig iawn (llai na 1%) o ddynion oedd â mynediad i gyfleusterau i fenywod yn unig, a'r ffordd arall.

Canlyniadau: anabledau dysgu

Cawsom wybodaeth am 3,695 o gleifion mewn 123 o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i bobl sydd ag anabledau dysgu yng Nghymru a Lloegr. O'r rhain roedd pedwar yn gleifion allanol ar CTOau. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys pob un o'r 65 o ymddiriedolaethau GIG a 58 sefydliad gofal iechyd annibynnol oedd yn gymwys i gymryd rhan yn y cyfrifiad.

Nid oedd fawr o newid yng nghyfanswm y darparwyr o'r flwyddyn waelodlin (gweler Tabl 8). Fodd bynnag, mae nifer y cleifion wedi gostwng bob blwyddyn, ac o 20% o 4,609 yn 2006 i 3,691 yn 2009. Cynyddodd cyfran y cleifion mewnol mewn sefydliadau gofal iechyd annibynnol o 20% yn 2006 i 27% yn 2009, gyda gostyngiad cyfatebol yng nghyfran y cleifion gyda darparwyr GIG.

Mae patrwm y canlyniadau ar gyfer cleifion anabledau dysgu yn 2009 yn eithaf tebyg i'r hyn a adroddwyd mewn cyfrifiadau blaenorol. Nid yw hyn yn syndod gan fod llawer o gleifion wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod go faith, ac felly wedi cael eu cynnwys mewn cyfrifiadau blaenorol.

Tabl 8: Nifer y darparwyr gwasanaethau anabledau dysgu a chleifion mewnol					
	GIG (Lloegr)	Annibynnol (Lloegr)	GIG (Cymru)	Annibynnol (Cymru)	Cyfanswm
Cyfrifiad 2009					
Nifer y darparwyr	60	54	5	4	123
Nifer yr holl gleifion (yn cynnwys cleifion allanol CTO)	2,487	1,014	139	55	3,695
% o'r holl gleifion mewnol	67.3	27.4	3.8	1.5	100
Cyfrifiad 2008					
Nifer y darparwyr	62	57	5	5	129
Nifer o gleifion mewnol	2,873	1,050	143	41	4,107
% cleifion mewnol	70.0	25.6	3.5	1.0	100
Cyfrifiad 2007					
Nifer y darparwyr	64	47	5	4	120
Nifer o gleifion mewnol	3,063	900	154	36	4,153
% cleifion mewnol	73.8	21.7	3.7	0.9	100
Cyfrifiad 2006					
Nifer y Darparwyr	70	48	5	1	124
Nifer o gleifion mewnol	3,505	930	164	10	4,609
% cleifion mewnol	76.0	20.2	3.6	0.2	100

Ethnigrwydd

Roedd gwybodaeth am ethnigrwydd ar gael ar gyfer 99% o'r cleifion. O'r rhain, roedd 13% yn perthyn i grwpiau du ac ethnig lleiafrifol, a ddiffinnir fel pob grŵp heblaw Gwyn Prydeinig (h.y. cyfrifir grwpiau Gwyn Gwyddelig a Gwyn Arall ymhlith y grwpiau du ac ethnig lleiafrifol) (gweler Tabl 9). Mae'r ffigur hwn ychydig yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol, ac mae'n sylweddol is na'r 22% o gleifion iechyd meddwl a oedd o grwpiau ethnig lleiafrifol, fel y nodwyd yn yr adran o'r adroddiad hwn am iechyd meddwl.

Er bod patrymau yn ôl ethnigrwydd yn ddigon tebyg i'r blynyddoedd blaenorol, bu cynnydd rhwng 2006 a 2009 yng nghyfradd y cleifion o'r grŵp Gwyn Arall, a gostyngiad yn y rhai o'r grŵp Du Caribiaidd. Ychydig iawn o gleifion oedd gan rhai grwpiau ethnig.

Tabl 9: Cleifion mewnol anableded dysgu yn ôl grŵp ethnig

Grŵp ethnig	Cyfrifiad 2009		Cyfrifiad 2008		Cyfrifiad 2007		Cyfrifiad 2006	
	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer
Gwyn Prydeinig	86.7	3205	88.9	3,616	88.3	3,642	88.7	4,037
Gwyddelig Gwyn	1.5	57	1.3	53	1.0	40	1.4	66
Gwyn Arall	2.3	85	2.6	104	2.6	109	1.7	77
Gwyn a Du Caribiaidd	1.0	36	0.7	29	0.8	34	0.7	32
Gwyn a Du Affricanaidd	0.1	4	0.0	2	0.2	10	0.1	3
Gwyn ac Asiaidd	0.4	14	0.3	12	0.3	13	0.2	9
Arall Cymysg	0.5	19	0.3	14	0.4	16	0.3	14
Indiaidd	0.9	35	0.7	28	0.8	32	1.1	49
Pacistanaidd	0.9	33	0.7	30	0.8	32	0.7	34
Bangladeshaid	0.6	21	0.3	11	0.3	11	0.2	9
Asiaidd Arall	0.3	10	0.3	12	0.2	8	0.3	12
Du Caribiaidd	2.2	81	2.3	94	2.6	108	2.8	129
Du Affricanaidd	0.9	35	0.7	29	0.8	33	0.7	33
Du Arall	0.4	14	0.4	15	0.4	18	0.4	17
Tsieineidd	0.1	2	0.1	5	0.2	8	0.2	7
Arall	0.2	8	0.4	15	0.2	10	0.5	24
Heb ddatgan	1.0	36	0.9	38	0.7	29	1.2	57
Annilyd								
Cyfanswm	100	3,695	100	4,069	100	4,124	100	4,552

Megis yn y cyfrifiadau blaenorol, roedd cleifion o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol wedi'u canoli mewn nifer cymharol fychan o sefydliadau: roedd 70% yn gleifion mewn 30 o'r 123 o sefydliadau a gymerodd ran yn y cyfrifiad. Roedd llai na 10 claf o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol mewn 81 o sefydliadau, ac roedd 32 o sefydliadau eraill heb yr un claf mewnol o gwbl o'r grwpiau hyn.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod nifer y bobl sydd ag anableddau dysgu difrifol a dwys mewn rhai ardaloedd yn cael ei effeithio gan arferion cyllido a lleoli yn y gorffennol, ac yn enwedig gan bresenoldeb hen ysbytai arhosiad hir a phobl a leolwyd y tu allan i'w hardaloedd gwreiddiol gan awdurdodau cyllido.

Adrodd ar ethnigrwydd

Adroddodd tua hanner (49%) y cleifion ar eu grŵp ethnig eu hunain. Adroddodd staff ar y grŵp ethnig ar gyfer 24% o'r cleifion, a pherthnasau ar gyfer 22%. Mae'n bosibl felly i ethnigrwydd gael ei adrodd ar gam ar gyfer rhai cleifion. Ni wyddys sut y cafodd ethnigrwydd ei asesu ar gyfer 5% o'r cleifion.

Oed a rhyw

Roedd pedwar y cant [145] o'r cleifion dan 18 oed. Roedd nifer y cleifion mewnol ifanc o grwpiau ethnig lleiafrifol yn isel mewn sawl grŵp ethnig lleiafrifol.

Rhwng pawb, roedd 76% o gleifion dan 50 oed, ac roedd 24% yn 50 oed neu drosodd. Roedd cyfran y bobl dan 50 yn uwch ymhlith cleifion o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol (dros 86%) nag ymhlith y grŵp Gwyn Prydeinig (74%). Nid yw hyn yn syndod, o gofio bod grwpiau ethnig lleiafrifol ar y cyfan yn iau na'r boblogaeth Wen. Roedd 70% o gleifion mewn gwasanaethau anableddau dysgu yn ddynion, ond mewn gwasanaethau iechyd meddwl roedd 57% o'r cleifion yn ddynion.

Iaith a chrefydd

Adroddodd wyth y cant o gleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Cyfathrebu heb eiriau oedd yr iaith a ddewiswyd amlaf ar ôl Saesneg, a hynny gan 6% o gleifion mewnol.

Ni chofnodwyd crefydd ar gyfer 22% o gleifion, a dywedodd 13% o gleifion nad oedd ganddynt yr un. Roedd grwpiau De Asiaidd (Indiaid, Bangladeshaid a Phacistanaid) yn Fwslemiaid, Hindŵiaid neu Siciaid yn bennaf, a rhai o grwpiau Gwyn, Du a Gwyn/Du Cymysg yn Gristnogion yn bennaf.

Tueddfryd rhywiol

Yn gyffredinol, nid oedd y canlyniad yn hysbys ar gyfer bron i hanner (47%) o'r cleifion. O'r rhai a atebodd y cwestiwn am tueddfryd rhywiol, dywedodd 45% eu bod yn heterorywiol, dywedodd 2% hoyw/lesbiaidd, dywedodd 2% ddeurywiol, a dywedodd 1% 'arall'. Roedd niferoedd y cleifion mewn grwpiau ethnig lleiafrifol yn rhy isel i'w dadansoddi'n ystyrlon.

Anabledd

O'r holl gleifion mewn gwasanaethau anableddau dysgu:

- adroddwyd bod 3% heb unrhyw anableddau
- roedd gan 44% anabledd dysgu'n unig
- roedd gan 52% anableddau lluosog.

Roedd y patrymau ymhlith grwpiau ethnig lleiafrifol yn debyg, yn yr ystyr bod gan y rhan fwyaf o gleifion naill ai anabledd dysgu neu anableddau lluosog.

Cyfraddau derbyn

Rhoddir y cyfraddau derbyn yn Atodiad C, tabl C1. Defnyddiwyd amcangyfrifon yr ONS o'r boblogaeth gyffredinol fel enwaduron wrth weithio'r cyfraddau derbyn.

Roedd cyfraddau derbyn yn is na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau Gwyn Arall, Indiaidd, Pacistanaidd, Asiaidd Arall, Tsieineaidd ac Arall o rhwng 22% a 90%. Roeddynt ddwywaith i dair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith grwpiau Gwyn/Du Caribiaidd Cymysg, Du Caribiaidd, Du Arall a Chymysg Arall. Mae'r cyfraddau is ymhlith grwpiau Indiaidd a Tsieineaidd a'r cyfraddau uwch ymhlith rhai grwpiau Du yn debyg i batrymau ar gyfer cleifion mewnol mewn sefydliadau iechyd meddwl.

Mae'r patrymau derbyn hyn yn debyg iawn i'r rhai a adroddwyd mewn adroddiadau cyfrifiad blaenorol.

Newidiadau i amcangyfrifon poblogaeth

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol yng Nghymru a Lloegr er 2001. Mae ONS wedi cynhyrchu amcangyfrifon poblogaeth wedi'u diweddarau yn ôl grŵp ethnig ar gyfer 2007, sy'n ceisio adlewyrchu'r newidiadau hyn. Mae ONS yn disgrifio'r amcangyfrifon hyn fel rhai "arbrofol", ac maent yn agored i ryw gymaint o wall. Mae'r amcangyfrifon diwygiedig hyn ar gael ar gyfer Lloegr ond nid Cymru.. At hynny, nid ydynt yn adlewyrchu'r newidiadau demograffig rhwng 2007 a 2009. Gyda'r cafeatai hyn, rydym wedi defnyddio amcangyfrifon poblogaeth 2007 i ail-gyfrifo'r cyfraddau derbyn ar gyfer Lloegr (Atodiad C, Tabl C2) .

Dengys y canlyniadau bod defnyddio amcangyfrifon poblogaeth ONS ar gyfer 2007 yn lle amcangyfrifon 2001 yn arwain at ddangos cynnydd bychan yn y cyfraddau derbyn ar gyfer y grwpiau Gwyn Prydeinig a Gwyn Gwyddelig, a gostyngiad sylweddol yn y cyfraddau derbyn ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae patrymau derbyn cyffredinol yn aros fwy neu lai'r un peth.

Ffynhonnell cyfeirio

Fel y dywedwyd yn yr adran ar gleifion iechyd meddwl, rhaid i ni fod yn ofalus wrth ddehongli data am ffynonellau cyfeirio, gan nad yw'r ffynhonnell gyfeirio wreiddiol bob amser yn hysbys. Ar ben hyn, gyda chleifion ag anableddau dysgu, roedd yr wybodaeth hon yn annilys, ar goll neu'n anhysbys ar gyfer 14% o'r cleifion.

Oherwydd y nifer fechan o gleifion mewnol yn y rhan fwyaf o grwpiau ethnig lleiafrifol, ychydig iawn o wahaniaethau a welsom mewn ffynonellau cyfeirio. Mae'r canlyniadau ar gael ar: www.cqc.org.uk

Cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ar ddiwrnod derbyn ac ar ddiwrnod y cyfrifiad)

Gwnaeth Deddf Iechyd Meddwl 2007 nifer o newidiadau i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Adlewyrchir y newidiadau hyn yng nghyfrifiad 2009, oedd yn casglu gwybodaeth ar ddarpariaethau newydd y sefydlu triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth (adran 17A) ac a eithriodd rhyddhau dan oruchwyliaeth (adran 25A) gafodd ei ddiddymu.

Pob achos o gadw

O'r holl gleifion mewn gwasanaethau anableddau dysgu, roedd 45% wedi eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl adeg eu derbyn. O'r rhain, roedd 18% o grwpiau ethnig lleiafrifol.

Mae cyfraddau cadw ar ddiwrnod derbyn yn ôl grŵp ethnig yn Atodiad C, tabl C3. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ychydig iawn o wahaniaethau ethnig a welwyd. Yr unig eithriadau oedd y cyfraddau uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grwpiau Gwyn Arall a Du Affricanaidd.

Gan fod nifer y cleifion dan gadw o bob grŵp ethnig lleiafrifol yn isel, ni wnaethom unrhyw ddadansoddi pellach ar gyfer adrannau unigol y Ddeddf.

Cydsyniad

Barnwyd bod tua 70% o gleifion mewnol a dderbyniwyd yn anffurfiol yn analluog i gydsynio i driniaeth, sy'n gyfran tebyg i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol. Roedd niferoedd y cleifion mewn grwpiau ethnig lleiafrifol yn rhy isel i wneud sylwadau arnynt.

Barnwyd bod tua 37% o gleifion dan gadw yn analluog i gydsynio i driniaeth. Yr unig wahaniaeth ethnig a welwyd oedd y gyfradd uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y grŵp Du Affricanaidd, ond roedd hyn yn seiliedig ar nifer fach o gleifion.

Yn ogystal, barnwyd bod 7% o gleifion mewnol dan gadw yn alluog i gydsynio i driniaeth ond iddynt wrthod gwneud hynny. Roedd ychydig neu ddim cleifion o'r fath ymhlith grwpiau ethnig lleiafrifol.

Dull rhaglen gofal

Mae'r dull rhaglen gofal (CPA) yn darparu cefnogaeth i bobl sydd ag anghenion iechyd meddwl tymor hir. O fis Hydref 2008 bu newidiadau i CPA yn Lloegr, yn yr ystyr nad oes bellach ddau gategori o CPA, sef 'safonol' ac 'uwch'. Roedd y term 'safonol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r rhai ag anghenion mwy syml o fewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, yn wahanol i'r gwasanaethau 'uwch' ar gyfer y rhai ag anghenion mwy cymhleth. O 2008 dim ond un categori o CPA uwch sy'n bod. Ar hyn o bryd, nodweddion y rhai sydd angen CPA 'uwch' yw pobl sydd angen: cefnogaeth amlasiantaethol; cyfranogiad gweithredol; ymyrryd dwys; cefnogaeth gyda diagnosis dwbl; ac sydd mewn categori risg uwch. Mae hyn yn gwneud polisi CPA yn Lloegr yn wahanol i'r un yng Nghymru, lle na chafwyd newid i'r polisi a lle mae'r gwahaniaethu'n dal yn digwydd. Mae'r data CPA a gyflwynir yma felly yn cynnwys dim ond cleifion CPA uwch yn Lloegr, a'r cleifion CPS 'safonol' ac 'uwch' yng Nghymru.

Gwelsom fod 69% o'r holl gleifion mewnol ar CPA, 2% ar broses asesu unigol (SAP) a 29% heb fod ar yr un ohonynt. Yr unig wahaniaeth ethnig a welwyd oedd y gyfradd uwch na'r cyfartaledd ar gyfer bod ar CPA ymhlith y grŵp Du Caribiaidd.

Cofnodi digwyddiadau

Holodd cyfrifiad 2009 faint o weithiau y profodd cleifion neilltuo, ataliaeth gorfforol, hunan-niweidio, damweiniau ac ymosodiadau corfforol yn ystod eu cyfnod presennol o fod yn yr ysbyty, neu os oedd y cyfnod yn hwy na thri mis, y nifer a ddigwyddodd yn ystod y tri mis diwethaf. Mae'r patrymau'n debyg i'r rhai a welwyd yn flaenorol.

Neilltuo

Roedd pump y cant o gleifion mewnol wedi cael eu neilltuo unwaith neu ragor. Yr unig wahaniaeth ethnig a welwyd oedd cyfradd uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grŵp Gwyn Arall.

Ymosodiad corfforol ar y claf

Mae'r diffiniad o ymosodiad yn cynnwys ymosodiadau corfforol ar y claf, ni waeth pwy a ymosododd, ond nid oes gennym wybodaeth am bwy oedd yn gyfrifol am yr ymosodiad. Roedd tua 25% o gleifion mewnol wedi profi ymosodiad corfforol unwaith neu ragor. Yr unig wahaniaeth ethnig a welwyd oedd cyfradd uwch na'r cyfartaledd ymhlith y grŵp Gwyn/ Du Caribiaidd, ond roedd hyn yn seiliedig ar 17 o gleifion yn unig.

Ataliaeth gorfforol, hunan-niweidio, damweiniau

Roedd 27% o gleifion mewnol wedi cael profiad o un neu ragor o achosion o ataliaeth gorfforol, roedd 21% wedi ceisio niweidio eu hunain ac roedd 22% wedi cael damwain. Roedd y niferoedd yn isel iawn yn y grwpiau ethnig lleiafrifol, ac ni welsom unrhyw wahaniaethau ethnig.

Hyd arhosiad yn yr ysbyty

Dadansoddwyd hyd y cyfnod rhwng derbyn pob claf i'r ysbyty a diwrnod y cyfrifiad. Wrth reswm, mae'r cyfnod hwn yn fyrrach na hyd arhosiad llawn y claf yn yr ysbyty, sy'n rhedeg o'r diwrnod derbyn hyd y dyddiad rhyddhau.

- roedd 8% o'r cleifion mewnol yn yr ysbyty ers mis neu lai
- roedd 6% yn yr ysbyty ers rhwng mis a thri mis
- roedd 7% yn yr ysbyty ers rhwng tri mis a chwe mis
- roedd 11% yn yr ysbyty ers rhwng chwe mis a blwyddyn
- roedd 13% yn yr ysbyty ers rhwng blwyddyn a dwy flynedd
- roedd 23% yn yr ysbyty rhwng ers dwy flynedd a phum mlynedd
- roedd 32 yn yr ysbyty ers dros bum mlynedd.

Roedd y patrymau'n debyg iawn i'r rhai mewn cyfrifiadau blaenorol. Roedd tua 68% o'r cleifion yng nghyfrifiad 2009 wedi bod yn yr ysbyty am dros flwyddyn, ac felly roeddent wedi cael eu cynnwys yng nghyfrifiad 2008. Ar ben hyn, roedd dros hanner (55%) o'r cleifion wedi bod mewn ysbyty am dros ddwy flynedd, a byddant wedi cael eu cynnwys yng nghyfrifiadau 2007 a 2008. Bydd traean o gleifion wedi cael eu cynnwys ym mhob cyfrifiad ers 2006.

Cyfrifwyd canolrif yr arhosiad ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig gennym hefyd. Y canolrif yw'r pwynt canol yn yr ystod o werthoedd, felly canolrif hyd arhosiad grŵp ethnig neilltuol yw hwnnw lle mae gan hanner y cleifion hyd arhosiad sy'n llai na'r canolrif, ac roedd gan hanner arhosiad sy'n hwy na'r canolrif. Yn gyffredinol roedd canolrif arhosiad menywod yn yr ysbyty tua 33 mis, ac roedd y canolrif i ddynion tua 31 mis. Mae hyn yn cymharu â chanolrif ar gyfer cleifion ieuchyd meddwl o ddau fis a hanner i fenywod a phum mis a hanner i ddynion. Nid yw hi'n bosibl cymharu hyd arhosiad yn ôl grŵp ethnig mewn modd dibynadwy oherwydd y nifer isel o gleifion ymhlith nifer o grwpiau ethnig lleiafrifol.

Diogelwch wardiau

Roedd tua 12% o'r holl gleifion mewnol ar ward diogelwch canolig neu uchel, o gymharu â ward gyffredinol (58%) neu ddiogelwch isel (30%).

Fel yn 2007 a 2008, roedd cyfraddau cleifion mewnol ar wardiau diogelwch canolig neu uchel tua dwbl y cyfartaledd rhwng y grwpiau Gwyn Gwyddelig a Gwyn Arall. Roedd y gyfradd yn uwch hefyd yn y grŵp Du Caribiaidd. Ychydig iawn o gleifion mewnol oedd gan y rhan fwyaf o grwpiau ethnig lleiafrifol ar wardiau diogelwch canolig neu uchel.

Ystod oedran ar wardiau

